CYNGOR SIR Y FFLINT

# Gwasanaethau Cymdeithasol

**2023/24**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL






**A Blaenoriaethau 2024/2025**






# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| ADRAN 1 | **Cyflwyniad** | **03** |
| ADRAN 2 | **Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr** | **05** |
| ADRAN 3 | **Cyd-destun** | **08** |
| | Arweinyddiaeth | 08 |
| | Gweithlu | 09 |
| | Adnoddau Ariannol | 10 |
| ADRAN 4 | **Asesu Perfformiad** | **11** |
| | Pobl | 11 |
| | Atal | 19 |
| | Partneriaethau ac Integreiddio | 30 |
| | Lles | 41 |
| ADRAN 5 | **Gwybodaeth Arall** | **50** |
| | Arolygon ac Adolygiadau | 50 |
| | Cwynion a Sylwadau | 54 |
| | Cyfeirio at Ffynonellau Eraill o Wybodaeth | 55 |
| ADRAN 6 | **Data cyd-destunol a Mesuryddion Perfformiad Cenedlaethol** | **56** |
| ADRAN 7 | **Cael Gafael ar Wybodaeth Bellach a Dogfennau Pwysig** | **58** |
| ADRAN 8 | **Rhestr Termau** | **59** |


An English version of this report is available.
Os hoffech chi gael copi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun neu mewn fformat arall fel print bras, braille neu ar dâp, yna ffoniwch **01352 703020.**


Dyluniwyd yr adroddiad hwn gan:

DOUBLECLIC

A CREATIVE SOCIAL FIRM
CWMNI CYMDEITHASOL CREADIGOL

# Cyflwyniad

Caiff Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei baratoi dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd eu dwy yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor adrodd ar ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar les, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi'r prif bethau rydym yn eu gwneud yn Sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf bregus. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n budd-ddeiliaid o'n perfformiad a sut rydym wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n dylanwadu ar ddatblygiad ein gwasanaethau a'n cynlluniau at y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn asesu ein perfformiad yn erbyn pob un o'r pedwar maes yn y Fframwaith Gwella Perfformiad - Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Lles.

**Ym mhob maes byddwn yn gwerthuso:**

**1. Beth ydym ni'n ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud?**

**2. Sut ydyn ni'n gwybod? e.e. pa dystiolaeth o ymchwil, ymgysylltu a'r metrigau rydym yn eu defnyddio i lywio'r asesiad hwn?**

**3. Beth ydym ni'n ei wneud yn dda a sut gallwn ni wella? Beth yw ein blaenoriaeth ar gyfer gwelliant dros y flwyddyn nesaf yn arbennig?**

**4. Pa gynnydd a wnaed gennym ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd? Pa wahaniaeth wnaethom ni?**

Mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad yn ymwneud â'r Safonau Ansawdd Cenedlaethol, sy'n amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ansawdd y gefnogaeth y dylai awdurdodau lleol fod yn ei darparu.

Amlinellir y safonau isod.

## Y Safonau Ansawdd

### Pobl

**1.1** Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

**1.2** Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys sy'n cael eu cefnogi gan weithio tuag at weledigaeth a rennir.

## Atal

**2.1** Mae'r angen am ofal a chefnogaeth wedi'i leihau a'r cynnydd o ran angen wedi'i atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni i bobl.

**2.2** Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas.

## Partneriaethau ac Integreiddio

**3.1** Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl.

**3.2** Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a chefnogaeth fel partneriaid cyfartal.

## Lles

**4.1** Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.

**4.2** Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau hysbys eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gymaint â phosibl.

Ceir achosion lle mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â safonau ansawdd lluosog, ond manylir ar hyn yn y maes mwyaf priodol.



ADRAN 2

CRYNODEB O BERFFORMIAD GAN Y CYFARWYDDWR

# Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

**Croeso i Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24.**

Eleni, er gwaethaf yr heriau rydym wedi'u hwynebu, rydym wedi parhau i gefnogi'n gadarnhaol ein trigolion mwyaf diamddiffyn i gael llais, dewis, a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain, cyrraedd eu potensial a byw'n dda yn eu cymunedau.

Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) **Arolygiad Gwerthuso Perfformiad llawn o wasanaethau Oedolion a Phlant.** Hwn oedd yr arolygiad llawn cyntaf i'r portffolio ei gael ers dros wyth mlynedd a rhoddodd gyfle i ni arddangos yr arfer creadigol ac arloesol a wneir yma yn Sir y Fflint.

Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ac mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan, nododd yr arolygwyr waith ac arfer da ar draws yr holl wasanaethau a diolchwyd i bawb a gymerodd ran am groeso mor gynnes a'r mewnbwn cadarnhaol a gafwyd.

Rydym yn ystyried yr adroddiad yn adlewyrchiad da a chadarnhaol o'r gwaith caled parhaus, yr ymrwymiad a'r ymroddiad y mae staff yn ei roi i'w rolau o ddydd i ddydd, ac yn rhywbeth y dylem i gyd fod yn falch iawn ohono.

I ddarllen yr adroddiad llawn cliciwch yma.




Rydym yn falch iawn o fod wedi cael pedwar yn rownd derfynol Gwobrau Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru eleni. Mae'r Gwobrau yn cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu gwaith nodedig ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

## Cystadleuwyr Sir y Fflint yn y Rownd Derfynol

**Categori:** Adeiladu Dyfodol Disglair ar gyfer Plant a Theuluoedd
**Yn y rownd derfynol:** Tîm Plant i Oedolion

**Categori:** Gwobr Arweinyddiaeth Effeithiol
**Yn y rownd derfynol:** Sandra Stacey, Rheolwr Cartref Gofal Marleyfield House

**Categori:** Gweithio mewn Partneriaeth
**Yn y rownd derfynol:** Meicro-Ofal
**Yn y rownd derfynol:** Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu

Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd ar 25 Ebrill 2024, ac enillodd Sandra Stacey y Wobr Arweinyddiaeth Effeithiol, gyda gweddill yr enwebeion yn cyrraedd y rownd derfynol â chanmoliaeth uchel.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran am y cyflawniad rhagorol hwn.

Mae datblygu ein **gwasanaethau mewnol a'n prosiectau cyfalaf** yn parhau i fod yn ffocws allweddol i Sir y Fflint ac mae hyn yn amlwg yn ein llwyddiannau eleni, a'n blaenoriaethau wrth symud ymlaen i 2024/25.

**Mae rhai o uchafbwyntiau eraill 2023/24 yn cynnwys:**

- Mae recriwtio **gofalwyr maeth** wedi bod yn weithredol eleni, gyda phedwar gofalwr maeth cyffredinol newydd wedi'u cymeradwyo ac wyth gofalwr person cysylltiedig arall.
- Mae pedwar o'n pum **Cartref Preswyl Plant** newydd bellach wedi'u cofrestru gydag AGC. Mae un o'r cartrefi yn cynnwys model Therapi Aml Systemig (MST) sef y cyntaf o'i fath yng Nghymru.
- Mae'r **Gwasanaeth Dilyniant** wedi ehangu ac mae bellach hefyd yn cynnwys Gweithiwr Cymdeithasol llawn amser sy'n ymroddedig i weithio gydag unigolion niwroamrywiol 16-18 oed.
- Cynhaliodd Coleg Cambria **Ffair Swyddi Tu Chwith** lwyddiannus iawn, gyda chefnogaeth Next Steps, HfT a Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy, i gefnogi unigolion ag anableddau i mewn i waith.
- Eleni cynigiodd **Project SEARCH** ddwy raglen a daeth y Project SEARCH cyntaf yn y DU i gynnig rhaglen bwrpasol i oedolion dros 25 oed.
- Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru **(NWIAS)** wedi bod yn rhagweithiol iawn eleni yn hyrwyddo'r gwasanaeth mewn nifer o ddigwyddiadau ledled y rhanbarth. Mae hyfforddiant wedi'i gynnal gydag ASNEW ar Awtistiaeth a Sgiliau Cyfathrebu ac mae hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnig i ddarparwyr Eiriolaeth.
- Mae'r cynlluniau dylunio terfynol ar gyfer **Tŷ Croes Atti** wedi'u cymeradwyo ac mae'r gwaith adeiladu wedi hen ddechrau. Er mwyn cynyddu'r capasiti ar gyfer gofal cam-i-lawr o fewn ein darpariaeth fewnol, cytunwyd ar 12 gwely Cam-i-lawr **Rhyddhau i Adfer ac Asesu** (D2RA) yn Nhŷ Croes Atti, a fydd yn cynyddu'r ddarpariaeth ar draws Sir y Fflint o'i lefel bresennol o 16 i gyfanswm o 28.
- Mae'r cysyniad dylunio ar gyfer **Maes Gwern** wedi esblygu i ymgorffori meysydd i alluogi darparu gwasanaethau iechyd a therapïau ar y safle newydd, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi anabledd dysgu, iechyd meddwl ac awtistiaeth, i greu **canolbwynt gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd integredig.**
- Mae eleni wedi bod yn hynod lwyddiannus i'r prosiect **Meicro-Ofal.** Mae 14 o fentrau newydd wedi'u sefydlu, gan gymryd y cyfanswm i 45, ac mae Sir y Fflint bellach yn gallu comisiynu cymorth gan Feicro-ofalwyr.
- Mae **Bwrdd Prosiect Dementia** wedi'i sefydlu i weithredu Strategaeth Dementia Sir y Fflint. Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o Ofal Cymdeithasol, Iechyd a phartneriaid trydydd sector. Mae'r bwrdd wedi gweithio ar y cyd i oruchwylio nifer o fentrau cadarnhaol eleni i ymgysylltu ag unigolion yr effeithir arnynt gan ddementia.
- Rydym wedi ailgomisiynu ein **Gwasanaethau Eiriolaeth** yn llwyddiannus i sicrhau bod unigolion yn gallu deall a chyfathrebu eu hanghenion gofal a chymorth a gwneud a/neu herio penderfyniadau am eu gofal. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi'i ymestyn i gynnwys darpariaeth eiriolaeth arbenigol ar gyfer pobl ag awtistiaeth.

# ADRAN 2

## CRYNODEB O BERFFORMIAD GAN Y CYFARWYDDWR

- Mae rhaglen **Dechrau'n Deg** wedi'i gwella i gynnig gofal plant rhan amser i bob plentyn dwy oed. I helpu i gefnogi'r angen am leoedd **gofal plant** ychwanegol, cwblhawyd Cam 1 y Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant ym mis Mawrth 2024, gydag wyth adeilad newydd ac un adnewyddiad.

- Mae'r **Tîm Llesiant ac Adfer** bellach yn gwbl weithredol ac yn cyflawni canlyniadau rhagorol ac mae'r elfen cymorth llety hefyd wedi'i lansio. Mae'r gwasanaeth yn profi'n llwyddiannus iawn, ac mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn gadarnhaol.

- Mae 25 o ddarparwyr ar draws gofal preswyl, gofal cartref a gofal ychwanegol, bellach wedi cyflawni un o dair gwobr (Efydd, Arian ac Aur) trwy ein rhaglen **Progress for Providers.**

- Mae'r nifer sy'n manteisio ar ein **Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc** yn parhau i gynyddu gyda mwy na 400 o ofalwyr ifanc bellach wedi'u cofrestru.

- Mae prosiect Pen-Pal wedi'i sefydlu i roi cyfle i **ofalwyr** gyfathrebu â gofalwyr eraill yn rhyngwladol, i rannu syniadau a darparu cymorth gan gymheiriaid.



*Neil Ayling*
*Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol*



*Craig Macleod*
*Uwch Reolwr, Gwasanaethau Plant*



*"Hwn fydd adroddiad blynyddol terfynol y Cyfarwyddwr llawn Neil Ayling gan ei fod yn ymddeol ym mis Gorffennaf. Hoffem ddiolch i Neil am ei wasanaeth gwerthfawr dros y 13 mlynedd diwethaf a dymunwn y gorau iddo ar ei ymddeoliad. Mae'n bleser gennym gyhoeddi mai Craig Macleod, Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant, fydd ein Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol newydd. Mae gan Craig gyfoeth o wybodaeth a blynyddoedd lawer o brofiad ym maes gofal cymdeithasol, ac edrychwn ymlaen at ei groesawu i Dîm y Prif Swyddogion."*

*Y Cynghorydd Christine Jones*
*Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles*

ADRAN 3
CYD-DESTUN

# Cyd-destun

## Arweinyddiaeth

### Pwy Ydym Ni

Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor a chymeradwyo polisïau i gyflawni gwelliant parhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 67 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac sy'n rhan o gyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio perfformiad holl agweddau'r Cyngor. Mae un Aelod yn cael ei ddewis gan yr Arweinydd i gynrychioli pob maes portffolio, a elwir yn Aelodau Cabinet, ac ynghyd â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinwyr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor.

### Sut rydym ni'n gwneud penderfyniadau

Mae pob Aelod Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw hwnnw. Oherwydd y berthynas waith agos gyda'r Portffolio Addysg ac Ieuenctid, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac Ieuenctid, er mwyn trafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.



Mae Arweinydd a Dirprwy Arweinwyr y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ynghlwm â rhaglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r Aelod Cabinet hefyd yn mynd i gyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae swyddogion y Cyngor yn cael eu harwain gan y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cael cefnogaeth Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am bob un o'r meysydd portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl statudol "Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol". Nodir trefniadau strwythurol y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion yn glir. Mae'r cyfansoddiad yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.

Mae gan y Cyngor hefyd ei broses lywodraethu fewnol ei hun drwy system o archwilio mewnol. Mae canlyniadau archwiliadau'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a gellir galw swyddogion i roi tystiolaeth i'r pwyllgor pe bai pryderon yn codi ynghylch eu meysydd gwasanaeth.

# Gweithlu

### Recriwtio Sir y Fflint

Mae recriwtio ar draws y sector gofal cymdeithasol yn her yn genedlaethol, fodd bynnag mae gan Sir y Fflint nifer o fentrau creadigol ar waith i helpu i ysgogi recriwtio. Comisiynodd Sir y Fflint Creed Communications Ltd i gynnal ymgyrch farchnata 3 mis ar gyfer recriwtio i waith cymdeithasol a therapi galwedigaethol rhwng Mai ac Awst 2023.

Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymgyrch, cafodd budd-ddeiliaid allweddol eu cyfweld i ddeall pwyntiau gwerthu unigryw Sir y Fflint fel cyflogwr ac i lywio'r fframwaith negeseuon. Dewisodd y Cyngor neges recriwtio "Chwa o Awyr Iach" fel canolbwynt.



Yn ystod yr ymgyrch gwelwyd yr hysbysebion 550,000 o weithiau ar draws llwyfannau amrywiol a chliciwyd arnynt 7,000 o weithiau. Yna fe wnaeth tua 2,000 glicio i chwilio am swyddi ar wefan Sir y Fflint.

Yn dilyn ymlaen o lwyddiant yr ymgyrch, mae Sir y Fflint bellach wedi dod â'r fenter yn fewnol ac wedi lansio eu gwefan 'Chwa o Awyr Iach' eu hunain a thudalen we Recriwtio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Crëwyd ffilm yn dathlu llwyddiannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'w dangos yn seremoni wobrwyo Tîm Datblygu'r Gweithlu. Teitl y ffilm yw 'Gwasanaethau Cymdeithasol – Chwa o Awyr Iach' i gysylltu â'r ymgyrch bresennol ac mae'n parhau i gael ei defnyddio fel cymorth recriwtio.

Mae grŵp gorchwyl hefyd wedi'i sefydlu i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddenu ymgeiswyr ar gyfer swyddi Gweithwyr Gofal Cartref, a chynhaliwyd digwyddiad recriwtio ym mis Mawrth 2024 gyda rhagor o waith wedi'i gynllunio yn 2024/25.

Mae Sir y Fflint wedi ymuno â'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer unigolion sydd wedi cwblhau'r cwrs Blas ar Ofal neu'r Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol. Rhoddodd y rhaglen Blas ar Ofal, a ariannwyd tan ddiwedd Mawrth 2024, gyfle i unigolion gael profiad uniongyrchol o weithio yn y sector gofal trwy hyfforddiant a lleoliad 4 wythnos.

Mae'r ymgyrch Gofalwn yn parhau i hyrwyddo'r sector gofal ledled Cymru. Mae Sir y Fflint yn aelod gweithgar o grŵp Gofalwn Rhanbarthol Gogledd Cymru, gan weithio'n agos gydag ysgolion a cholegau lleol fel rhan o'r rhaglen llysgenhadon rhanbarthol.

### Meicro-Ofal

Sir y Fflint Gofal-Meicro Tyfu Gofal yn Sir y Fflint
Flintshire Micro-Care Growing Care in Flintshire

Mae Prosiect Meicro-ofal Sir y Fflint yn ddull arloesol o gefnogi pobl neu fusnesau bach i ddarparu gwasanaethau gofal a llesiant yn yr ardal. Mae Meicro-Ofal wedi cryfhau'r farchnad gofal lleol drwy gynnig opsiwn gwahanol ar gyfer gofal a chymorth, a thrwy ddod â ffynhonnell newydd o bobl i'r farchnad ofal. Eleni mae Sir y Fflint wedi manteisio ar botensial Meicro-Ofal trwy ei ddefnyddio mewn pecynnau a gomisiynir yn uniongyrchol.

### Cefnogi Staff a Datblygiad Proffesiynol

Fel y nododd yr arolygwyr yn ystod Arolygiad Arfarnu Perfformiad Sir y Fflint, mae Uwch Dîm Rheoli sefydlog a phrofiadol mewn grym ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant sy'n darparu dilyniant o ran arweinyddiaeth. Mae arweinwyr yn hygyrch, yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol, ac ar y cyfan, yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant a'r medrau cywir. Mae gan Sir y Fflint bolisi goruchwylio cynhwysfawr ac mae ymarferwyr yn elwa ar oruchwyliaeth reolaidd.
Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu Sir y Fflint yn cynnal safon uchel o gyfleoedd hyfforddi ac yn cynnig dulliau ymatebol wedi'u cynllunio i gefnogi anghenion hyfforddi a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r tîm yn cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol, staff i ymgymryd â chyrsiau AMHP (Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy) a chyrsiau cyn-AMHP, a hefyd yn cefnogi'r Wobr Addysgwr Ymarfer, gan gynnig datblygiad proffesiynol parhaus i'n Gweithwyr Cymdeithasol a chefnogi dilyniant gyrfa.

## Adnoddau Ariannol

Gosodwyd cyllideb **2022/23** ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar £99.873m, sy'n cynnwys yr elfen Gwasanaethau Plant o £12.281m o'r gyllideb 'All-Sirol'. Yn **2023/24**, roedd y gyllideb yn cynnwys cyllideb ychwanegol o £10.073m ar gyfer pwysau ar wasanaethau ac yn darparu arbedion effeithlonrwydd o £0.283m.

Ar gyfer **2024/25** mae cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gosod ar £106.121m, sy'n cynnwys £13.795m ar gyfer elfen Gwasanaethau Plant y gyllideb 'All-Sirol'. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys pwysau gwasanaeth o £5.766m ac yn darparu arbedion effeithlonrwydd o £7.272m.

# Asesu Perfformiad

## Pobl

- **Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.**
- **Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys sy'n cael eu cefnogi gan weithio tuag at weledigaeth a rennir.**

### Balchder Sir y Fflint

Cynhaliwyd Balchder Sir y Fflint ym mis Mehefin 2023. Mae'r digwyddiad hwn yn dathlu cyflawniadau ein plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys seremoni wobrwyo a gynhelir gan y bobl ifanc eu hunain, ac amrywiaeth o weithgareddau hwyliog i blant o bob oed.

Mae'r digwyddiad yn cael ei drefnu a'i gynnal gan grŵp cyfranogiad **Grŵp Lleisiau Ifanc Sir y Fflint.** Mae'r grŵp yn cynnig cyfle i blant sy'n derbyn gofal yn Sir y Fflint leisio'u barn, cyfrannu at ddatblygiadau'r gwasanaeth, rhoi eu hadborth ar bolisïau a gweithdrefnau o fewn yr awdurdod lleol a mynychu'r Fforwm Gwasanaethau Plant.

Mae'r grŵp yn croesawu siaradwyr gwadd gan gynnwys yr Heddlu, Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal a Thai. Mae'r grŵp hefyd yn cael nifer o ddiwrnodau allan trwy gydol y flwyddyn.

*"Rwyf wir yn mwynhau'r grŵp, rwy'n teimlo bod fy llais yn cael ei glywed"*

*"Rwy'n mwynhau cyfarfod â phobl ifanc eraill yn yr un sefyllfa â mi."*

*"Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth gan y grŵp cyfan a'r staff."*

## Taliadau Uniongyrchol - Datblygiadau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol

Dros y 12 mis diwethaf mae Cyngor Sir y Fflint wedi parhau i chwarae rhan arwyddocaol yn natblygiad mentrau taliadau uniongyrchol yng Nghymru. Yn galluogi pobl i gronni eu cyllid yn greadigol i wella canlyniadau, effeithlonrwydd, atal dirywiad a grymuso pobl i gydweithio a meithrin gwell gwydnwch.

Mae Porth Recriwtio Cynorthwywyr Personol Sir y Fflint yn parhau i fod yr unig enghraifft yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â Sir y Fflint ac wedi ariannu ei ymestyn i awdurdodau lleol eraill, ac mae'r tîm ar hyn o bryd yn cefnogi Sir Ddinbych i ymgorffori'r platfform yn eu systemau a'u harferion.

Mae tudalennau gwe taliadau uniongyrchol Sir y Fflint yn parhau i gael eu datblygu, ochr yn ochr ag amrywiaeth o adnoddau taliadau uniongyrchol, llenyddiaeth gwybodaeth gyhoeddus, ffilmiau, adnoddau gwe, a phrosesau recriwtio diogel. Mae Sir y Fflint wedi rhoi caniatâd i nifer o awdurdodau lleol fabwysiadu fformat y tudalennau gwe, ac mae adnoddau'n cael eu rhannu ac ar gael er budd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Yn fwyaf diweddar, cynhyrchwyd ffilm wybodaeth gyhoeddus ddwyieithog wedi'i hanimeiddio gan y tîm, a rhoddwyd caniatâd i Gyngor Sir Gwent fabwysiadu hon er eu budd.

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrosiect Trawsnewid AD Gogledd Orllewin Cymru, mae ystod o wybodaeth ac offer wedi'u datblygu i wella dealltwriaeth o daliadau uniongyrchol a'u posibiliadau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Mae Sir y Fflint yn arwain ar ddatblygu taliadau uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl, gan weithio mewn partneriaeth â dinasyddion a sefydliadau gofalwyr lleol a chenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn parhau i ddatblygu ei wasanaethau lleol mewn ymateb i gyfrifoldebau statudol ac fe'i derbynnir fel enghraifft flaenllaw o gymorth taliadau uniongyrchol yng Nghymru. Gwahoddwyd y tîm i siarad mewn cynadleddau cenedlaethol ac ar hyn o bryd maent yn ystyried defnyddio TG i wella cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu. Mae setiau data yn cael eu datblygu i wella a llywio sut rydym yn gwneud pethau, a rhennir y wybodaeth hon ar lefel genedlaethol.

Mae Rheolwr y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn Ddirprwy Gadeirydd Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan, gan arwain ar ddatblygu polisi ac arferion taliadau uniongyrchol yn genedlaethol. Maent hefyd yn cefnogi adolygiad cenedlaethol o'r gweithlu Cynorthwywyr Personol yng Nghymru, a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru ar ran y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. Ynghyd â chefnogi Llywodraeth Cymru ynghylch geiriad y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd a chefnogi BIPBC (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) i dreialu Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Unigol.

I gael rhagor o wybodaeth am daliadau uniongyrchol, cliciwch yma.

## Mwy na Geiriau

Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd fel arweinydd cymunedol i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Mae gallu cynnig gwasanaethau i'n trigolion mwyaf bregus yn eu hiaith eu hunain, yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r geiriau a ddefnyddiwn yn unig, mae'n dod ag ymdeimlad o berthyn, cysylltiad, cynefindra, diogelwch, ymddiriedaeth a llawer mwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o ddathliadau a gweithgareddau Cymraeg wedi cael eu cynnal gyda chymorth a chefnogaeth ein cymuned. Fel rhan o'u cynllun 'GOLUD', mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi cynhyrchu CD o emynau a darlleniadau cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia, ac mae hwn wedi'i rannu â'n cartrefi gofal preswyl.

Drwy gydol y flwyddyn mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i ymweld â chartrefi gofal i ganu a pherfformio i breswylwyr yn Gymraeg. Fel rhan o raglen o ddigwyddiadau Menter Iaith Fflint a Wrecsam ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi eleni, bu disgyblion o ysgolion lleol yn ymweld â Llys Eleanor, Llys Raddington a Croes Atti i ganu, difyrru a rhannu'r dathliadau gyda'r trigolion. Bu tîm Cartref Plant Y Dderwen hefyd yn cefnogi'r iaith Gymraeg ac amrywiaeth ddiwylliannol trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Fel cyflogwr, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cychwyn ar brosiect i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cwblhau eu hasesiad sgiliau iaith, a, gyda'n cydweithwyr o Iaith, wedi datblygu a chyflwyno rhaglen newydd o'r enw 'Mae Cymraeg o bwys i bawb', gyda chwrs dilynol 'Mae Cymraeg o bwys i rheolwyr' ar gyfer rheolwyr. Nod y rhaglenni hyn yw dangos pwysigrwydd defnyddio'r iaith yn y





gweithle a sut i annog pobl i wneud hynny.

Mae ein Tîm Datblygu'r Gweithlu yn parhau i gefnogi fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' ac yn cynnig y cyfle i staff sy'n mynychu hyfforddiant ac yn cwblhau cymwysterau neu hyfforddeiaethau gael mynediad at hyfforddiant, llyfrau gwaith ac adnoddau yn Gymraeg, pan fyddant ar gael. Cynigir asesiadau iaith Gymraeg i ddysgwyr yn yr asesiad cychwynnol, ac mae'r fframwaith 'Mwy na Geiriau' a'r 'Cynnig Rhagweithiol' wedi'u cynnwys yn y sesiynau a addysgir i fyfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol a hyfforddeion gwaith cymdeithasol, mewn partneriaeth â phrifysgolion Gogledd Cymru.

Ar gyfer gweithwyr Sir y Fflint hefyd:

- Anogir presenoldeb mewn hyfforddiant iaith Gymraeg a pharheir i ryddhau gweithwyr i fynychu hyfforddiant.
- Cynigir sesiynau blasu Cymraeg trwy Goleg Cambria ar gyfer gweithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, (sesiynau dwy awr am gyfnod o chwe wythnos).
- Cynigir sesiynau wythnosol Panad a Sgwrs i roi cyfle i siarad ac ymarfer sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol a chefnogol o fewn amser gwaith.
- Caiff gweithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg eu nodi, er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r cwrs blasu e-ddysgu Cymraeg Gwaith/Work Welsh a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Dathlu cyflawniadau academaidd Gofal Cymdeithasol

Ym mis Hydref 2023, dathlodd staff o bob rhan o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint eu llwyddiant academaidd mewn seremoni wobrwyo arbennig. Cafodd gweithwyr y Cyngor, ynghyd â gweithwyr darparwyr gofal annibynnol, eu gwobrwyo am eu cyflawniadau yn y digwyddiad.

Dathlwyd ystod eang o wobrau addysgol gan gynnwys QCF Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwaith Cymdeithasol, Therapi Galwedigaethol (OT), yn ogystal â chymwysterau eraill a gydnabyddir yn broffesiynol.






*"Roeddwn i mor falch o fod wedi bod yn y seremoni a chyflwyno cymaint o wobrau i'n hymgeiswyr llwyddiannus, roedden nhw i gyd yn haeddiannol. Mae'r gwobrau hyn yn gydnabyddiaeth o'u gwaith caled, a hoffwn longyfarch pawb ar eu cyflawniadau."*

*Y Cynghorydd Christine Jones*
*Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol*

## Tîm Datblygu'r Gweithlu

Mae eleni wedi bod yn brysur iawn i'n Tîm Datblygu'r Gweithlu. Yn ogystal â'r seremoni wobrwyo, mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn, tra hefyd yn cefnogi busnes fel arfer.

Mae'r tîm yn parhau i gynnal safon uchel o gyfleoedd hyfforddiant i'n gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofalwyr a'r sector annibynnol. Gan gynnig cyrsiau hyfforddi o ansawdd uchel gyda sicrwydd ansawdd yn gyson, trwy amrywiaeth o ddulliau cyflwyno, maent hefyd yn gweithio'n agos gyda CGLISFf (Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint) a GOGDdC (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru) i sicrhau bod ein partneriaid trydydd sector yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am beth ar gael.

Rhai o lwyddiannau Tîm Datblygu'r Gweithlu yn 2023/2024:

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, mae'r tîm wedi cefnogi:

- **3,493** o unigolion drwy ddarparu **334** o gyrsiau, ar draws gweithlu'r sector gofal cymdeithasol.
- **36** o ddysgwyr i gael tystysgrif ar gyfer y cymhwyster Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac 1 ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Ymarfer. Gyda **53** o ddysgwyr pellach ar hyn o bryd yn cwblhau Lefel 2 Craidd, Lefel 2 Ymarfer, Lefel 3 Ymarfer neu Ddyfarniad mewn Dementia Lefel 2.

- **37** o hyfforddeion gwaith cymdeithasol trwy eu hyfforddeiaeth (myfyrwyr y Brifysgol Agored a Wrecsam).
- **4** aelod o staff yn ymgymryd â'r hyfforddeiaeth Therapi Galwedigaethol rhan amser 4 blynedd trwy brifysgol Wrecsam.
- **9** Gweithiwr Cymdeithasol o Sir y Fflint yn cyflawni'r Wobr Cydgrynhoi gyda Phrifysgol Bangor.
- **4** aelod o staff yn dilyn y chyrsiau AMHP (Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy) a chyrsiau cyn-AMHP.
- **6** aelod o staff yn cyflawni'r Wobr Addysgwr Ymarfer.

Adborth ar gyrsiau hyfforddi:

- Mae 1220 o ffurflenni wedi'u llenwi a'u dychwelyd.
- Dywedodd 88% o'r rheiny fod y cwrs wedi gwella eu gwybodaeth.
- Roedd 97% yn graddio'r cwrs yn 4+.
- Roedd 97% yn graddio cyflwyniad y cwrs yn 4+.
- Cyflawnodd 97% yr amcanion hyfforddi yn llawn.
- Cyflawnodd 96% eu hamcanion personol yn llawn.

**Diogelu**

- Hyrwyddwyd y pecyn e-ddysgu corfforaethol ar gyfer Diogelu. Cwblhaodd 906 (80.01%) o staff gwasanaethau cymdeithasol y modiwl yn 2023/24.
- Darparwyd hyfforddiant diogelu rheolaidd i fwy na 70 o staff sy'n gweithio i asiantaethau'r sector annibynnol a gwirfoddol.
- Parhawyd i hyrwyddo e-ddysgu Cymru Gyfan sydd ar gael drwy ysgu@Cymru a gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Safonau Diogelu Cenedlaethol**

- Darparwyd cyflwyniadau i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r safonau diogelu cenedlaethol.
- Datblygwyd rhaglen hyfforddiant diogelu (i'w chwblhau ym mis Ebrill 2024), i sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn cynnig hyfforddiant sy'n cyd-fynd yn ddigonol â'r safonau diogelu.

**Sgiliau Digidol**

- Gwella sgiliau digidol y gweithlu ymhellach trwy gynnig cyrsiau sgiliau digidol ac ymwybyddiaeth.
- Hysbysebu'r cyrsiau hyfforddi a gynigir gan Gymunedau Digidol Cymru trwy Goleg Cambria.

- Mynd ati i hyrwyddo Canolbwynt Digidol Sir y Fflint – mae aelod o'r tîm ar hyn o bryd yn gwirfoddoli fel aelod o'r Sgwad Digidol.
- Mae'r tîm yn aelodau o'r grwpiau cyfathrebu rhanbarthol a digidol, a gadeirir gan Gymunedau Digidol Cymru.
- Mae'r sesiynau a gynhaliwyd yn cynnwys offer digidol ar gyfer cyfieithu, offer digidol ar gyfer dementia, seinyddion clyfar digidol - Sut i ddefnyddio seinydd clyfar digidol i wella iechyd a lles.

**Meysydd eraill**

- Datblygwyd **is-grŵp Hyfforddiant Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol Gogledd Cymru.** Sicrhawyd aelodaeth ar draws asiantaethau partner ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal.
- Parhau i gefnogi'r gwaith parhaus o ran **recriwtio a chadw** staff gofal cymdeithasol drwy gynnig hyfforddiant o safon, ynghyd â chymorth ar gyfer cymwysterau a hyfforddeiaethau, gan sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus yn eu rolau a'u datblygiad proffesiynol parhaus.
- Parhau i gefnogi'r ymgyrch **Gofalwn** a mynychu'r Eisteddfod i gefnogi'r agenda recriwtio.
- Sefydlu rhaglen dreigl o hyfforddiant ar gyfer Gwasanaethau Anabledd Dysgu Sir y Fflint ar Dechnegau Ymddygiad Cadarnhaol **(RESPECT)**, a ddarperir gan staff mewnol cymwys ac achredig. Yn 2023/24, cwblhaodd 28 aelod o staff yr hyfforddiant hwn a chwblhaodd 10 aelod arall o staff gwrs gloywi.
- Cefnogwyd staff i gael mynediad at raglen sylfaen 12 wythnos fel cyflwyniad i waith ThG ym Mhrifysgol Wrecsam. Cefnogwyd staff sydd â diddordeb mewn symud ymlaen i rôl Gweithiwr Cymdeithasol, trwy gynnig cyfres o fodiwlau sylfaen trwy'r Brifysgol Agored.
- Cefnogi'r gwaith a wneir gan **Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar.** Gweithio tuag at weithlu medrus a hyderus, a chynllun datblygu hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer rolau o fewn y system blynyddoedd cynnar, sydd wedi cryfhau cydgynhyrchu a defnydd effeithiol o adnoddau.

## Gofalwn Cymru

Gofalwn .cymru | WeCare .wales

Eleni bu Sir y Fflint yn cynrychioli Gofalwn Cymru mewn digwyddiadau gyrfaoedd ym Mhlas Derwen, Treffynnon, Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle, ac Ysgol Uwchradd Penarlâg. Rydym hefyd yn recriwtio mwy o lysgenhadon Gofalwn, i allu cyrraedd mwy o bobl ifanc a'u haddysgu am y gwahanol opsiynau gyrfa a chyfleoedd dilyniant o fewn y sector.

Mae Sir y Fflint hefyd wedi cofrestru gyda'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer unigolion sy'n cwblhau cwrs Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol Gofalwn Cymru.

# Blaenoriaethau 2024/2025

- ✓ Taliadau uniongyrchol: arwain ar fentrau taliadau uniongyrchol ar Lefel Genedlaethol.
- ✓ Cyngor Sir y Fflint i lofnodi'r addewid a mabwysiadu 'Siarter Rhianta Corfforaethol: Addewid Cymru' Llywodraeth Cymru. Cefnogi'n llawn yr egwyddorion a'r addewidion a nodir yn y Siarter, a sicrhau bod ein Plant sy'n Derbyn Gofal yn derbyn y safon uchaf o ofal a chymorth.
- ✓ Treialu matrics sgiliau datblygu'r gweithlu i sicrhau bod staff yn darparu gwasanaethau effeithiol o safon. I gynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu, magu plant, gofal plant a thrawsnewid fel isafswm (Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd).
- ✓ Cefnogi gweithrediad safonau diogelu Cymru Gyfan trwy gyflwyno rhaglen hyfforddi sy'n cyd-fynd â'r grwpiau cymwyseddau o fewn y fframwaith hyfforddiant cenedlaethol.
- ✓ Parhau i gefnogi'r Strategaeth Ddigidol drwy gefnogi gwella sgiliau digidol ein gweithlu.
- ✓ Cynnal safon uchel o gyfleoedd hyfforddiant a datblygu i'n gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofalwyr a'r sector annibynnol.
- ✓ Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol, gan sicrhau bod Sir y Fflint yn rhan o weithredu polisïau a chynigion hyfforddiant.
- ✓ Cefnogi'r gwaith o roi hyfforddiant a gwybodaeth o feysydd a nodwyd ar waith drwy'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) ac Arolygiad AGC.
- ✓ Cefnogi'r Ymgyrch Gofalwn a'r gwaith mewn perthynas â recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol.
- ✓ Byddwn yn parhau i ymrwymo i gefnogi'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' drwy sicrhau ein bod yn gallu cynnig hyfforddiant ac adnoddau'n ddwyieithog lle bo angen.
- ✓ Cefnogi staff a myfyrwyr gyda llwybr i ofal cymdeithasol a therapi galwedigaethol.
- ✓ Parhau i ddarparu'r cymwysterau Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd Lefel 2 a 3 drwy ein canolfan asesu gan ddarparu'r cymwysterau hanfodol i'n staff cymorth sy'n gweithio o fewn gwasanaethau oedolion.
- ✓ Byddwn yn parhau i weithio gyda phrifysgolion a chefnogi hyfforddeion Gwaith Cymdeithasol drwy eu hyfforddeiaeth 3 blynedd a chynnig cymorth i'n staff Therapi Galwedigaethol sy'n cwblhau eu hyfforddeiaeth.
- ✓ Byddwn yn parhau i gefnogi hyfforddiant cymhwyso gofal cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru, gan gynnwys gofynion fframwaith y 3 blynedd gyntaf i holl Weithwyr Cymdeithasol ôl-gymhwysol newydd mewn swyddi.

# Atal

- **Mae'r angen am ofal a chefnogaeth wedi'i leihau a'r cynnydd o ran angen wedi'i atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni i bobl.**

- **Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu a chyfrannu at gymdeithas.**

## Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Yn unol â dyletswydd statudol awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o leoedd gofal plant yn Sir y Fflint, mae nifer o fentrau allweddol yn mynd rhagddynt, yn ogystal â datblygu rhaglenni Llywodraeth Cymru.

Mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi'i gwella i gynnig gofal plant rhan amser i bob plentyn dwy oed. Mae hwn yn ehangu fesul cam, mae Cam 1 wedi'i roi ar waith ac mae Cam 2 yn cael ei gyflwyno ledled Sir y Fflint ar hyn o bryd yn seiliedig ar feini





prawf Llywodraeth Cymru, gyda 23 o blant ychwanegol ar gyfer 2024-2025. Rydym yn parhau i weithio tuag at lwybrau di-dor ar gyfer gofal plant 2 oed, y cynnig gofal plant 3 oed, a darpariaeth addysg cyn-ysgol gynnar, yn ogystal â sicrhau ansawdd gofal plant, i blant ag anghenion ychwanegol neu blant diamddiffyn.

Er mwyn helpu i gefnogi'r angen am leoedd gofal plant ychwanegol, ac i greu llwybrau di-dor i blant rhwng gofal plant ac addysg, cwblhawyd Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant Cam 1 ym mis Mawrth 2024. Gydag wyth adeilad newydd ac un adnewyddiad, mae'n gweithredu ochr yn ochr â Cham 2 Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant. Mewn cydweithrediad ag Addysg a'r sector gofal plant, gan fynd i'r afael â'r anghenion yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, cyflwynwyd pedwar Achos Busnes i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2025, ac mae dau wedi dechrau ar eu harolwg dichonoldeb. Bydd yr adeiladau modiwlaidd newydd yn creu 50-60 o leoedd gofal plant ychwanegol ar gael yn Sir y Fflint.

Mae'r Grant Cyfalaf Bach gan Lywodraeth Cymru yn parhau i mewn i 2024-25, ac mae wedi bod yn rhaglen hynod lwyddiannus, gan wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd gofal plant ar draws Sir y Fflint.

Mae gwaith yn mynd rhagddo tuag at ddatblygu ymagwedd genedlaethol, ranbarthol a lleol at Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, fel bod ein holl blant 0-7 oed yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

Bu cryn fudd a newid yn y system o ganlyniad i gydweithio mewn partneriaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, sydd o fudd i deuluoedd. Bydd y gwaith hyd yma, gan gynnwys treialu a phrofi arfer arloesol, yn cefnogi Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau polisi pellach ar draws y sectorau a'r sbectrwm angen, er mwyn sicrhau canlyniadau effeithiol i bob plentyn a chanlyniadau iechyd a llesiant tymor hwy. Bydd Sir y Fflint yn gweithio gyda grŵp cynghori bach o bob rhan o Gymru i ddatblygu syniadau a chyfeiriad polisi ar lefel genedlaethol.

Mae Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ddrafft wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, yn dilyn hysbysiad bod cyllid Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar wedi dod i ben, bydd Bwrdd y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaeth Ranbarthol Sir y Fflint yn adolygu hyn yn 2024 ac yn cytuno ar y ffordd ymlaen, gan gynnwys blaenoriaethu prosiectau presennol, er enghraifft, perthnasoedd rhieni a babanod, Brain Story a gwydnwch.

Mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Blynyddoedd Cynnar wedi'u datblygu ac mae'r cyfeiriad strategol wedi'i gynllunio yn unol â 4 ffrwd waith:

**1. Ymyriadau ar Sail Tystiolaeth, Canfod Anghenion a Chyflawni Canlyniadau**

Ein nod yw sicrhau perchnogaeth gyfunol eang o'r strategaeth a'r weledigaeth, er mwyn i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae gwaith yn ymwneud â data poblogaeth yn datblygu ac mae llinell sylfaen wedi'i sefydlu. Y meysydd sy'n cael eu harchwilio yw gwybodaeth a rennir rhwng y rhanbarth, yr awdurdod lleol ac iechyd, er enghraifft data genedigaethau byw.

Mae dealltwriaeth gliriach o boblogaeth y blynyddoedd cynnar ac adroddiad Nesta Cymru wedi bod yn ddefnyddiol i wella ein gwybodaeth busnes a chefnogi meysydd gwaith allweddol,

megis ehangu Dechrau'n Deg. Mae gwaith yn mynd rhagddo tuag at naratif clir o ddeilliannau plant ar adegau allweddol yn ystod bywyd, megis genedigaeth, mynediad i ddysgu a mynediad i'r ysgol, ac ar gyfer grwpiau poblogaeth diamddiffyn ac anghenion cymhleth.

**2. Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Ymarfer**

Mae'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer y blynyddoedd cynnar bron wedi'i chwblhau a bwriedir ei chwblhau ym mis Ebrill 2024. Gan weithio ar y cyd â Phrifysgol Rhydychen, mae 'Brain Story' wedi'i dreialu a'i brofi ar draws pob rhanbarth yng Ngogledd Cymru. Cyflwynwyd gwybodaeth werthuso i gyfarfod rhanbarthol Integreiddio a Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ym mis Ionawr 2024. Cafodd y gwerthusiad ei dderbyn yn dda, a bydd yr hyfforddiant yn cael ei ehangu dros y flwyddyn nesaf.

**3. Creu Gwasanaethau Hygyrch a Chynhwysol, Cydgynhyrchu, ac Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth**

Mae Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau (EPEC), y rhaglen rhieni sy'n gwirfoddoli, yn dal i ddarparu lefel uchel o adborth cadarnhaol ar gyfer y rhaglenni craidd. Treialwyd modiwl awtistiaeth ychwanegol rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024, a ddangosodd fwy o hyder mewn rhianta, gwell perthnasoedd a rhwydweithiau rhieni cryfach a sefydlwyd fel cymorth cymheiriaid.

Dechreuodd Cefnogwyr Rhieni gyda nifer fach o wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i gyflwyno gwybodaeth i rieni yn eu cymuned leol. Bydd hyn yn helpu i ganoli gwybodaeth i'r cyhoedd ac yn caniatáu ar gyfer dull mwy effeithiol o gyfeirio gwybodaeth.

Mae'r fframwaith cynhwysiant ac ymgysylltu yn parhau i ddatblygu, er mwyn sicrhau bod llais y plentyn a'r rhiant yn dylanwadu ar y system. Un o'r llwyddiannau mawr a ddatblygwyd gyda rhieni yw'r dudalen we Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant newydd, sy'n gweithio gydag Iechyd a'u datblygiad o'r Canolbwynt Cychwyn Gorau.

**4. Llwybrau Integredig a Phwyntiau Pontio**

Mae sawl Grŵp Tasg a Gorffen yn gweithio tuag at ddatblygu'r system ymhellach, er enghraifft, mae gweithgor llwybr cyn-ysgol wedi'i sefydlu i greu llwybrau di-dor drwy ofal plant i addysg, ac i sicrhau bod plant ag anghenion yn cael eu cefnogi ar y daith hon.Mae rhywfaint o'r gwaith hwn bellach wedi symud i fusnes fel arfer oherwydd ei effaith gadarnhaol, er enghraifft lleferydd ac iaith o fewn Addysg, a Chanllawiau Fideo Rhyngweithiol a Chylch Diogelwch yn gweithio gyda CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed).

I HOLL blant gael y dechrau gorau mewn bywyd
For ALL Children to have the best start in life
Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chefnogi Teuluoedd
Early Years and Family Support Service

## Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Arbennig wedi parhau i ddatblygu eleni, mae capasiti staff wedi cynyddu a bu cynnydd yn y galw am Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA) drwy'r Tîm Cyswllt Plant yn Gyntaf.

Bu nifer o ddatblygiadau yn y gwasanaeth gan gynnwys:

- Grŵp Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i lansio ar-lein.
- Cynhaliwyd bore coffi cyntaf a thaith gerdded y grŵp cymorth a fu'n llwyddiant, ac wrth symud ymlaen cynhelir y rhain bob 3 mis.
- Mae tudalen we GGA wedi'i chreu ar wefan y Cyngor, sy'n hawdd ei chyrraedd ac sy'n cynnwys ffurflen gyswllt sy'n cyfeirio ymholiadau at fewnflwch GGA penodol.
- Mae cylchlythyrau bellach yn cael eu hanfon at bob Gwarcheidwad Arbennig deirgwaith y flwyddyn, sy'n helpu i ddechrau'r cyfathrebu pan nad yw'r tîm bellach yn cefnogi.
- Anfonir gwybodaeth yn rheolaidd gan ddefnyddio mewnflwch cymorth GGA, i gyfeirio unigolion at ddigwyddiadau, gweithgareddau a chymorth perthnasol yn yr ardal leol.
- Mae hyfforddiant meithrin ymlyniadau, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein, yn cael ei gynnal bob 3 mis ar gyfer Gwarcheidwaid Arbennig.
- Addysgu cydweithwyr ynghylch Gwarcheidiaeth Arbennig i helpu i alluogi GGA i gael ei nodi'n gynharach a lleihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Gweithio'n agos gydag AKFA Cymru (Cymdeithas Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu) i ddatblygu gwasanaethau cymorth GGA ledled Cymru.

## Therapi Aml-Systemig

Mae Therapi Aml Systemig (MST) yn ffordd fyrdymor, ddwys o weithio gyda theuluoedd pan fod y person ifanc yn y teulu yn mynd i drafferth yn yr ysgol, adref neu gyda'r heddlu.

Mae'r Tîm MST wedi gweithio gyda 134 o deuluoedd ar draws Sir y Fflint a Wrecsam ers mis Mai 2020. Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 caeodd y tîm 45 o deuluoedd gan gwblhau triniaeth lawn. Yn ystod y cyfnod hwn, arhosodd 93.33% o'r bobl ifanc gartref, roedd 80% mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a 91.11% heb unrhyw arestiadau newydd.

*“Mae’r therapydd yn wych, mae hi wedi helpu’r teulu hwn, felly yn rhyfeddol ni allaf roi mwy o eiriau am yr hyn y mae’n ei wneud. Mae hi’n anhygoel.”*

*“Roeddwn i eisiau dweud ychydig o ddiolch i’r tîm MST cyfan. Mae fy mywyd wedi newid yn llwyr. Gwnaeth i mi deimlo fy mod wedi fy ngrymuso a helpodd fi i ddelio â sefyllfaoedd anodd.”*

## Ehangu’r Tîm Dilyniant

Mae’r Model Dilyniant yn parhau i gael ei ehangu ar draws gwasanaethau i hybu sgiliau annibyniaeth pobl a’u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae’r Tîm Dilyniant yn cael ei gryfhau i alluogi ffocws ar gyflogaeth gyda swyddi ychwanegol yn cael eu creu, i alluogi’r tîm i ehangu’r gwasanaeth sy’n cynnig cyfleoedd cyflogaeth a gwaith i unigolion ag anableddau.

Ers Ionawr 2024, mae Gweithiwr Cymdeithasol llawn amser wedi’i neilltuo i weithio gydag unigolion niwroamrywiol 16-18 oed, gan sicrhau bod cymorth ac arweiniad yn cael eu darparu i alluogi’r unigolyn i fod yn annibynnol o gymorth ffurfiol wrth symud ymlaen. Mae’r Gweithiwr Cymdeithasol yn cysylltu â’r tîm IAS (Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig) a gwasanaethau lleol eraill i sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol o’r holl gymorth sydd ar gael yn ei ardal. Maent wedi datblygu rhwydweithiau i alluogi cydweithio i sicrhau bod unigolion yn gallu cyflawni’r hyn sydd bwysicaf iddynt. Mae’r cymorth yn cael ei fesur gan ddefnyddio’r ffurflen Asesiad Meincnodi a ddyfeisiwyd gan y Gwasanaeth Dilyniant, sy’n olrhain y cynnydd a wneir o ddod i mewn i’r gwasanaeth (meincnod) dros gyfnod o 6-12 mis a gellir ei ddefnyddio fel cymorth gweledol y gall y Gweithiwr Cymdeithasol a’r unigolyn ei gyflawni gyda’i gilydd.

Datblygiad pellach yw penodi Cydgysylltydd Cyflogaeth â Chymorth ym mis Mawrth 2024, a ariennir gan y Grant Trawsnewid. Byddant yn gweithio gyda’r Tîm Anableddau Dysgu, gan gyfrannu at y broses adolygu i nodi cyfleoedd i’r rhai sy’n mynegi diddordeb mewn cyflogaeth â thâl.

## Project SEARCH

DFN Project | SEARCH

Mae Project SEARCH yn rhaglen interniaeth ryngwladol ar gyfer unigolion gydag anableddau dysgu, niwroamrywiaeth a / neu awtistiaeth. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cefnogi'r prosiect yn falch ers ei lansio yn 2019 mewn partneriaeth â HfT, ac yn fwy diweddar BIPBC.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod cyffrous i'r rhaglen Project SEARCH leol o ran arloesi a datblygu'r gwasanaeth a gynigir yn lleol. Yn Sir y Fflint, ehangodd y rhaglen i gynnig dwy raglen wahanol a dyma oedd y cynllun Project SEARCH cyntaf yn y DU i gynnig rhaglen bwrpasol i oedolion dros 25 oed. Mae ehangu'r gwasanaeth lleol yn cynnwys rhedeg dau gynllun, wedi bod yn llwyddiant go iawn, ac mae wedi arwain at gynnal dwy seremoni raddio i fyfyrwyr ddathlu cwblhau eu hinterniaethau gyda'u teulu a'u ffrindiau.

*"Mae bod gyda'r Project Search a gweithio gyda Datblygu'r Gweithlu wedi bod yn brofiad hyfryd i mi baratoi ar gyfer mynd i amgylchedd gwaith go iawn".*

*Mae Dylan yn intern o Project Search a weithiodd gyda Thîm Datblygu Gweithlu Sir y Fflint ar un o'i gylchdroadau.*



# ADRAN 4
## ATAL

*“Mae Project SEARCH yn tynnu sylw at sgiliau a thalent ein pobl ifanc lleol. Yn Sir y Fflint, rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod pawb yn cael y cyfle i weithio, ennill cyflog, datblygu eu sgiliau a bod yn rhan o’r gymuned.*

*Y Cynghorydd Christine Jones*
*Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol*





## Cefnogi Unigolion sydd ag Anableddau i ddod o hyd i Waith

Mae partneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint, HfT a Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy wedi'i ffurfio i gefnogi unigolion â phroblemau iechyd meddwl, niwroamrywiaeth ac anableddau dysgu, i sicrhau cyflogaeth â thâl yn eu cymuned leol.

Ym mis Chwefror 2024, cynhaliwyd ffair swyddi o chwith yng Ngholeg Cambria, gyda chymorth Next Steps a HfT. Daeth dros 50 o unigolion a sefydliadau i'r digwyddiad. Yn dilyn ymlaen o'r digwyddiad, cysylltwyd ag un unigolyn ynghylch cyflogaeth â thâl, ac mae unigolyn arall yn sefydlu ei fusnes ei hun gyda chymorth Syniadau Mawr Cymru. O ganlyniad i lwyddiant y digwyddiad, mae Next Steps a HfT yn bwriadu trefnu Ffair Swyddi Tu Chwith arall ym mis Hydref 2024.

Mae'r 'EmployAbility Hub' hefyd wedi'i lansio ar wefan Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy, sy'n rhestru'r holl unigolion a gynorthwyir sy'n chwilio am waith cyflogedig.

*"Diolch am gynnal digwyddiad fel hwn. Mae'n ysbrydoledig iawn, a dwi'n mawr obeithio y byddan nhw'n cael eu cyflogi! Neu gychwyn eu busnesau eu hunain gyda'u harbenigedd a'u doniau."*

## Next Steps

Cynhaliodd Next Steps gwrs cynllunio gyrfa mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru ym mis Mai 2023. Roedd y cwrs yn cwmpasu opsiynau gyrfa, sut i ysgrifennu CV, beth i'w wisgo ar gyfer cyfweliad a chynllun gweithredu ar y camau i'w cymryd i fod yn barod ar gyfer cyflogaeth.

Bu Next Steps yn gweithio gyda Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy ac Academi'r Brenin i ddarparu profiad gwaith ac ymarfer cyfweliad 'go iawn' i'r dysgwyr. Dechreuodd wyth dysgwr y cwrs a chwblhaodd chwech, gan ennill cymhwyster Dyfarniad mewn Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith.

Roedd y canlyniadau ar gyfer yr unigolion hynny yn cynnwys:

- Sicrhaodd 2 unigolyn waith cyflogedig.

- Mae 1 unigolyn yn gweithio tuag at ddod yn hunangyflogedig.
- Dechreuodd 1 unigolyn gwrs hyfforddiant cyfrifeg.
- Dechreuodd 2 unigolyn wirfoddoli i ennill profiad, strwythur a threfn arferol i'w hwythnos, ac mae'r ddau bellach yn chwilio am waith cyflogedig.

## Cefnogi Gofalwyr

Mae gofalwyr di-dâl yn ffynhonnell hanfodol o ofal a chymorth i lawer o unigolion ledled Sir y Fflint, gan leddfu'r pwysau ar wasanaethau gofal ffurfiol yn sylweddol. Ni ellir diystyru effaith werthfawr gofalwyr di-dâl ar unigolion a chymunedau yn Sir y Fflint.








## Gofalwyr Ifanc

Mae'r nifer sy'n ymgysylltu a manteisio ar ein Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn parhau i gynyddu gyda mwy na 400 o ofalwyr ifanc bellach wedi'u cofrestru ar draws Sir y Fflint.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr mewn Addysg i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn ysgolion trwy gynllun achredu o sesiynau hyfforddi i staff a chysylltiadau â GOGDdC. Sicrhau eu bod yn gallu nodi gofalwyr ifanc a'u cefnogi gyda'u haddysg ac unrhyw anghenion cymorth pellach a allai fod ganddynt. Nid yn unig y mae ymwybyddiaeth yn cael ei godi ymhlith staff mewn ysgolion, ond hefyd ar draws cymuned yr ysgol gyda disgyblion yn dysgu am ofalwyr ifanc, beth allai rhai o'u cyfrifoldebau ei olygu a beth allant ei wneud i gefnogi ei gilydd. Mae'r codi ymwybyddiaeth yma wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac eleni pleidleisiodd disgyblion Ysgol Alun yn yr Wyddgrug i gefnogi Gofalwyr Ifanc GOGDdC fel elusen y flwyddyn. Bydd yr arian a godir gan yr ysgol yn cael ei wario ar hyfforddiant ychwanegol i'r rhai sy'n teimlo bod ei angen arnynt cyn eu harholiadau.

## Seibiant i Ofalwyr

Mae'r ystod o opsiynau sydd ar gael trwy ein cynllun arobryn 'Pontio'r Bwlch' bellach yn fwy nag erioed, gan sicrhau bod gan ofalwyr y dewis a'r rheolaeth ar gyfer seibiant sy'n bwysig iddynt ac sy'n cyflawni eu canlyniadau. Gan adeiladu ar lwyddiant 'Pontio'r Bwlch', lansiodd Sir y Fflint raglen o daliadau uniongyrchol i ofalwyr, mewn partneriaeth â GOGDdC. Ers lansio'r cynllun newydd, rydym wedi gweld ymateb hynod gadarnhaol gyda 48 o ofalwyr yn cael eu cefnogi hyd yn hyn. Dywedodd gofalwyr fod y cynllun taliadau uniongyrchol yn

cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles hwy, a lles y rhai y gofelir amdanynt. Teimlai gofalwyr eu bod yn gallu cynnal eu rôl ofalu a pharhau i gefnogi'r rhai y gofelir amdanynt i barhau i fyw gartref. Mae ein sefydliadau partner hefyd wedi dangos diddordeb mawr yn y cynllun ac yn adrodd yn ôl bod y gofalwyr y maent yn eu cefnogi yn credu y byddai hyn o gymorth sylweddol iddynt. Yn fewnol, mae ein Gweithwyr Cymdeithasol yn gweld manteision anhygoel cefnogi gofalwyr i fod yn greadigol wrth ddod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu rôl ofalu.

Ers i'r cynllun ddechrau, mae'n amlwg bod gallu'r gofalwr i fod yn greadigol wrth ddod o hyd i atebion i gyflawni eu canlyniadau, yn llawer mwy cost-effeithiol ac effeithiol o ran adnoddau na'r atebion rhagnodedig sydd ar gael.

Mae'r Cynllun 'Amser' wedi ein galluogi i gefnogi ein partneriaid trydydd sector gyda cheisiadau am gyllid i ddarparu nifer o opsiynau gwahanol i'n gofalwyr gael mynediad at egwyliau, yn amrywio o egwyl mewn gwesty i bryd o fwyd, neu hyd yn oed hobi y gellir ei wneud o gartref.

Mae ein gofalwyr ifanc wedi gallu cael mynediad at deithiau gwersylla a gweithgareddau yn y gwyllt. Mae'r 'Siop Egwyl' newydd a grëwyd gan ofalwyr ifanc, yn darparu eitemau fel gemau ac offer chwaraeon i'w defnyddio yn y grŵp, ac yna mynd adref gyda nhw i chwarae gyda brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu.

## Yr Argyfwng Costau Byw

I gefnogi gofalwyr gyda chostau gwresogi, mae gan GOGDdC nifer o focsys Gaeaf Cynnes ar gael sy'n cynnwys adlewyrchyddion rheiddiaduron, ffilm ffenestr ac eitemau o ddillad cynnes a blancedi cnu. Mae GOGDdC hefyd wedi cael arian i brynu blancedi trydan, sy'n helpu i gadw'r gwres wedi'i droi i lawr.

Mae cyrsiau'n cael eu trefnu gyda Scottish Power a Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint a fydd yn cefnogi gofalwyr gyda chostau ynni uchel. Mae'r cyrsiau'n edrych ar ddulliau arbed ynni a'r cymorth ariannol sydd ar gael i ofalwyr. Dywedodd gofalwyr a fynychodd sesiynau blaenorol fod y cyrsiau'n fuddiol iawn. Dywedodd gofalwyr wrthym eu bod wedi dysgu llawer ac y byddai'n eu helpu i leihau eu biliau yn y dyfodol.

## Rhwydwaith Rhyngwladol o Ofalwyr

Mae'r prosiect 'pen-pal' wedi'i greu i roi cyfle i ofalwyr gyfathrebu, rhannu syniadau, cydweithio, darparu cymorth gan gymheiriaid a chyfleoedd seibiant. Mae'r prosiect wedi cael dechrau gwych, gyda gofalwyr yn cael eu paru â chanolfannau yn Swydd Gaer, yr Alban, Awstralia ac America. Mae gofalwyr yn cael eu paru yn ôl oedran a diddordeb, ac rydym wedi derbyn 51 o atgyfeiriadau ers i ni ddechrau ym mis Awst 2023. Mae gofalwyr wedi gofyn i rai grwpiau gael eu cynnal dros Zoom, fel y gallant sgwrsio am eu gwahanol feysydd a gweld ei gilydd wyneb yn wyneb.

## Ail-gomisiynu ein Gwasanaethau Gofalwyr o 2025 ymlaen

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu ein gwasanaethau cyfredol a gomisiynir i ddeall beth sy'n gweithio a lle y gallai fod bylchau y mae angen i ni eu llenwi i gefnogi ein gofalwyr. Rydym yn gweithio i sicrhau bod yr hyn a gomisiynir yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r gofalwyr eu hunain, gan sicrhau bod ganddynt fewnbwn i'r gwasanaethau sydd ar gael.

# Blaenoriaethau 2024/2025

- ✓ Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth maethu i gefnogi mwy o blant sy'n derbyn gofal.
- ✓ Parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Gorchmynion Gwarchodaeth i leihau'r angen i blant a phobl ifanc barhau i dderbyn gofal.
- ✓ Ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a chynnig darpariaeth ddi-dor ar draws rhaglenni. Cyflawni'r targed ehangu gofal plant a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2 flwydd oed, Dechrau'n Deg, Estyn Allan Dechrau'n Deg a gofal plant 3-4 oed a chymorth ychwanegol a pharhau â'r rhaglenni cyfalaf gofal plant.
- ✓ Datblygu dull cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn perthynas â Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar er mwyn i bob plentyn rhwng 0 a 7 oed gael y dechrau gorau posibl i fywyd a chyrraedd eu potensial llawn.
- ✓ Cynnwys ymagwedd ranbarthol at wyddor yr ymennydd yn y blynyddoedd cynnar trwy negeseuon syml, trosiadau, adrodd straeon, a hyfforddiant - Oxford Brain Story.
- ✓ Treialu darpariaeth gwybodaeth gwirfoddolwyr yn seiliedig ar dystiolaeth i gynyddu mynediad ac argaeledd gwybodaeth i gefnogi teuluoedd a darparu ymyrraeth gynnar ac atal.
- ✓ Defnyddio'r model dilyniant fel ffordd o hybu sgiliau annibyniaeth pobl.
- ✓ Parhau i ymestyn y cynnig gwasanaeth ar gyfer cyfleoedd gwaith i bobl anabl.
- ✓ Datblygu'r bartneriaeth newydd gyda Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy sy'n anelu at greu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ddiamddiffyn o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- ✓ Parhau i fodloni gofynion pobl ifanc ag anableddau dysgu mewn perthynas â llety.
- ✓ Mae'r gwaith pellach sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r gefnogaeth i ofalwyr ifanc yn eu rôl yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: ddatblygu'r Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc ymhellach, seibiant ac egwyliau i Ofalwyr Ifanc, ymgysylltu gyda chydweithwyr addysg ac ysgolion, ymgysylltu gyda busnesau a chymunedau ar draws Sir y Fflint, cymorth gyda hyfforddiant a chyfleoedd addysg.
- ✓ Parhau i ymchwilio ac ehangu datrysiadau seibiant creadigol i ddiwallu anghenion gofalwyr mewn ffyrdd unigryw a phwrpasol.

# Partneriaethau ac Integreiddio

- **Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu'n llawn ganlyniadau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl.**
- **Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at  ddyluniad a darpariaeth eu gofal a chefnogaeth fel partneriaid cyfartal.**

## Ymweliad Swyddogion Llywodraeth Cymru â Sir y Fflint

Ym mis Tachwedd 2023, cafodd Sir y Fflint gyfle gwych i arddangos dim ond rhai o'r arferion a'r prosiectau arloesol yr ydym i gyd yn falch iawn ohonynt pan gawsom ymweliad gan Albert Heaney CBE, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, a Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru.

Ymwelodd Albert a Taryn â Chartref Gofal Marleyfield House lle cwrddon nhw â'r Arth Faeth a dysgu am y prosiect Mockingbird yn yr adran Faethu. Cafodd Albert a Taryn hefyd daith o amgylch Cyflawni yn Marleyfield House, dysgu am lwybrau D2RA a chael taith rithwir o'r cynlluniau sydd gennym ar waith ar gyfer Tŷ Croes Atti, ein cartref gofal newydd yn y Fflint i gymryd lle Cartref Gofal presennol Croes Atti.

Roedd dau Feicro-ofalwr o Sir y Fflint, Rachel Jones ac Yvette Mallalieu hefyd yn bresennol i rannu gydag Albert a Taryn eu profiadau o fod yn feicro-ofalwyr a sut maent yn cefnogi trigolion Sir y Fflint a'u teuluoedd.











## Cartref Gofal Tŷ Croes Atti

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo'r cynlluniau dylunio terfynol ar gyfer cartref gofal preswyl newydd 56 ystafell wely yn y Fflint, sy'n cael ei adeiladu ar safle hen Ysbyty Bwthyn y Fflint. Mae'r gwaith adeiladu wedi hen ddechrau, a rhagwelwn y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2025.

Mae'r prosiect yn ymwneud ag adleoli ac ehangu'r cartref gofal 31 gwely presennol yn y Fflint i'r safle newydd. Gan weithio mewn partneriaeth â BIPBC, bydd y cyfleuster yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd integredig ac yn cynnig gofal preswyl o'r ansawdd uchaf gan ddefnyddio cyfleusterau o'r radd flaenaf ar bedwar llawr. Bydd un o'r lloriau hyn yn darparu cymorth D2RA i tua 12 o drigolion ar unrhyw un adeg, gan ddarparu gofal tymor byr sy'n cefnogi ailalluogi ac adferiad preswylwyr yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty neu anghenion eraill a nodwyd.

Mae gan y prosiect werth tua £18 miliwn ac mae wedi cael ychydig dros £11 miliwn o gyllid drwy raglenni cyfalaf y Gronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso (IRCF) a'r Gronfa Tai â Gofal (HCF) Llywodraeth Cymru. Mae gweddill yr arian yn cael ei ddarparu gan raglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint.

# ADRAN 4
## PARTNERIAETHAU AC INTEGREIDDIO

*“Mae’n wych darparu’r gwasanaethau hyn i’n trigolion yn Sir y Fflint. Rydym yn falch iawn o’r arloesedd yn Sir y Fflint a’r buddsoddiad parhaus i’r datblygiad yng Ngwasanaethau Sir y Fflint.”*

*Y Cynghorydd Christine Jones*
*Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol*



## Canolbwynt Integredig Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Maes Gwern

Bydd datblygiad Maes Gwern yn gweld y prosiectau cyflogaeth â chymorth presennol yn Tri Ffordd yn Bretton, a Growing Places yn Shotton, yn symud i'r Wyddgrug. Mae'r cysyniad dylunio gwreiddiol ar gyfer Maes Gwern wedi symud ymlaen i gynnwys meysydd i alluogi darparu gwasanaethau iechyd a therapïau ar y safle, i greu canolbwynt gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd integredig.

Cafodd yr achos busnes ar gyfer Cronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso Gofal (IRCF) Llywodraeth Cymru ei ailystyried a chafodd gymeradwyaeth amodol ym mis Medi, gyda chymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer y swm llawn o gyllid y gofynnwyd amdano (£2.9 miliwn) ym mis Tachwedd 2023. Bydd yr £1.8 miliwn sy'n weddill yn cael ei ariannu o raglen gyfalaf y Cyngor. Mae cynllun Cam 4 RIBA wedi'i gwblhau a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Ebrill 2024.

Bydd y cyfleuster pwrpasol newydd yn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel, gan weithio mewn partneriaeth â HfT a BIPBC, i ddarparu gwasanaethau a therapïau iechyd, yn ogystal â gwasanaethau cymorth anabledd dysgu, iechyd meddwl ac awtistiaeth. Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn cael ei adeiladu am 12 mis a'r dyddiad agor a ragwelir ar gyfer y cyfleuster yw Ebrill 2025.

## Sir y Fflint yn derbyn aelodaeth gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

Sir y Fflint
CYMUNEDAU OED-GYFEILLGAR
Flintshire
AGE FRIENDLY COMMUNITIES

Mae Sir y Fflint wedi derbyn yr anrhydedd o ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang y WHO o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Wedi'i sefydlu gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn 2016, mae'r Rhwydwaith Oed-Gyfeillgar yn cysylltu dinasoedd, cymunedau a sefydliadau ar draws y byd gyda gweledigaeth a rennir o wneud cymunedau yn llefydd gwych i fynd yn hen.

Mae Sir y Fflint yn ymuno â thros 1,400 o ddinasoedd, siroedd a chymunedau mewn 51 gwlad sy'n cael eu cydnabod fel llefydd sy'n gweithio i wella pa mor oed-gyfeillgar yw eu hardaloedd. Fel yr ail le yng Nghymru i dderbyn yr aelodaeth (Caerdydd yw'r llall), mae hyn yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn wlad oed-gyfeillgar lle mae pobl o bob oed yn cael cefnogaeth i fyw a heneiddio'n dda a chymryd rhan yn eu cymunedau.

I gael rhagor o wybodaeth am 'Sir y Fflint sy'n Oed-Gyfeillgar, cliciwch yma.

## Strategaeth Dementia a Bwrdd Prosiect Dementia Sir y Fflint

Datblygodd Cyngor Sir y Fflint, â chymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Strategaeth Dementia ar gyfer Sir y Fflint yn 2020. Cyhoeddwyd diweddariad ym mis Tachwedd 2021 sydd ar gael ar wefan Sir y Fflint, ynghyd ag ystod o wybodaeth am wasanaethau cymorth a gweithgareddau cymunedol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Mae Strategaeth Sir y Fflint yn cyd-fynd â Strategaeth Dementia Gogledd Cymru a Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan. Mae Bwrdd Prosiect Dementia wedi'i sefydlu i weithredu'r strategaeth hon. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Ofal Cymdeithasol, Iechyd a phartneriaid gwasanaeth y trydydd sector, sy'n gweithio ar y cyd i ymgysylltu â phobl yr effeithir arnynt gan ddementia, i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol yn cael eu diwallu a bod cymunedau'n gynhwysol ac yn gefnogol. Mae'r Bwrdd wedi goruchwylio nifer o fentrau a phrosiectau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Cymuned sy'n Deall Dementia newydd i Ogledd Cymru.
- Ymgyrch gwrando cymunedol a digwyddiad ymgysylltu cymunedol yn yr Wyddgrug.
- Cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir gan Weithwyr Cefnogi Dementia, Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol.
- Gweithwyr arbenigol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yn gweithio i rannu sgiliau i gefnogi pobl iau â dementia,a'r rhai sydd â diagnosis cynnar.
- Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl ac ymgysylltu â chymunedau, dan arweiniad GOGDdC.



- Arweinydd dementia ymroddedig o fewn Tîm Datblygu'r Gweithlu, gan ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff Gwasanaethau Cymdeithasol a thimau darparwyr gofal.
- Rhaglen achredu Progress for Providers ar gyfer darparwyr gofal sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Buddsoddi mewn hyrwyddo 'Protocol Herbert' Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, gan helpu i gefnogi'r gwasanaeth i ddod o hyd i bobl ar goll sy'n byw gyda dementia.
- Gwasanaethau therapi yn y gymuned, gan gydweithio'n agos â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cymorth ar ôl diagnosis.
- Llwybrau Cymorth Cof a Chanolfan Dementia Sir y Fflint, sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cymorth cyn ac ar ôl diagnosis i bobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr a theuluoedd di-dâl.

- Darparu offer ac adnoddau ychwanegol, gan gynnwys setiau radio sy'n hawdd i'w ddefnyddio gan bobl â dementia ac anifeiliaid anwes therapi robotig ar gyfer tenantiaid gofal ychwanegol a phreswylwyr cartrefi gofal.

## Meicro-Ofal

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn hynod lwyddiannus i'r prosiect Meicro-ofal yn Sir y Fflint. Mae 14 o Feicro-Fentrau newydd wedi'u sefydlu, gan fynd â nifer cyffredinol y darparwyr sy'n darparu gofal cymdeithasol a chymorth i 45. Mae'r Meicro-ofalwyr hyn wedi cefnogi tua 200 o bobl yn Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a gyda charfan newydd o fusnesau yn dod i'r amlwg, disgwylir i'r nifer hwn dyfu.

Mae Sir y Fflint wedi cefnogi darparwr Meicro-Ofal i sefydlu gwasanaeth dydd i bobl â dementia yn y gymuned, gan redeg allan o ddau leoliad gwahanol i ddarparu ar gyfer y galw mewn gwahanol ardaloedd. Mae 14 o bobl bellach yn mynychu'r gwasanaeth hwn, gan ddarparu gwasanaethau seibiant gwerthfawr ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl â dementia yn Sir y Fflint.

Cam mawr ar gyfer Meicro-Ofal fu'r gallu i gomisiynu'r mentrau i ddarparu gofal personol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn wedi gweithio'n llwyddiannus, gyda 5 Meicro-ofalwr yn cael eu comisiynu yn Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn. Mae canlyniadau'r gwasanaethau hyn wedi bod yn eithriadol, gyda Meicro-ofalwyr yn gallu darparu gwasanaethau hyblyg sy'n addasu i ganlyniadau unigolyn.

Eleni buom yn dathlu'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan Meicro-Ofal mewn digwyddiad dathlu a fynychwyd gan dros 40 o bobl,




y mwyafrif ohonynt yn Feicro-ofalwyr ac yn unigolion y maent yn eu cefnogi. Roedd y Cyngor yn gallu mynegi eu diolchgarwch a chlywed am y gwaith cadarnhaol a wneir yn y gymuned, a'r llwyddiannau y mae pobl wedi'u cael o sefydlu eu meicrofentrau eu hunain.

Enwebwyd y prosiect hefyd ar gyfer gwobr Acolâd Gofal Cymdeithasol Cymru a chyrhaeddodd y rhestr fer yn y rownd derfynol. Cyfarfu llawer o Feicro-ofalwyr â'r beirniaid a phortreadu'n angerddol werth Meicro-Ofal fel rhan o'r sector gofal cymdeithasol a'r hyn y mae wedi'i olygu iddyn nhw'n bersonol. Rydym yn falch iawn bod Meicro-Ofal wedi ennill cydnabyddiaeth fel gwasanaeth sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol â chymeradwyaeth uchel.

I ddarganfod mwy am ddod yn Feicro-ofalwr, neu i ddarganfod mwy am y gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig, cliciwch yma.













## Progress for Providers

Mae Progress for Providers yn rhaglen achredu sy'n nodi disgwyliadau clir ynghylch darparu gofal unigol ar gyfer darparwyr gofal preswyl a chartref yn Sir y Fflint. Mae'r rhaglen yn defnyddio adnoddau ac arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu timau staff i newid y ffordd y maent yn helpu pobl ac yn meithrin cyswllt â theuluoedd. Mae Progress for Providers yn hyrwyddo datblygiad staff ac yn galluogi pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gael mwy o ddewisiadau a rheolaeth drwy ganolbwyntio ar yr hyn syd d bwysicaf iddyn nhw.

Ar ôl ymgorffori'r offer hyn yn eu darpariaeth gwasanaeth, mae 25 o ddarparwyr wedi cyflawni un o dair gwobr (Efydd, Arian ac Aur). Mae darparwyr hefyd wedi bod yn addasu'r offer i weithio iddyn nhw ac yn darganfod eu bod yn dysgu mwy am yr unigolion maen nhw'n eu cefnogi, gan ganiatáu iddyn nhw ddarparu gofal gwell.

Enghreifftiau o effaith gweithio gyda Progress for Providers:

Mae **The Oaks** (Arian) wedi croesawu'r offer yn llawn, a thrwy weithio gyda'r teulu i ddeall hanes bywyd y bobl y maent yn eu cefnogi, maent yn gallu dod â'r person yr oeddent yn flaenorol yn fyw, ac nid dim ond gweld pwy ydyn nhw nawr. Maent hefyd yn defnyddio'r Cytundeb Gwneud Penderfyniad, sy'n cynnwys llawer o wybodaeth fanwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am benderfyniadau sy'n bwysig i bobl a sut yr hoffent fod yn rhan o'r penderfyniadau hynny, gan sicrhau eu bod yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd.

Mae **Castell Ventures** (Arian) yn cefnogi preswylwyr ag anableddau dysgu ac wedi addasu eu strategaeth recriwtio i gynnwys y Proffil Un Tudalen. Trwy ofyn i bob ymgeisydd gwblhau proffil cyn eu cyfweliad, gallant sicrhau y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus a'r unigolion y byddant yn eu cefnogi yn gydnaws.

Mae **Wellfield** (Aur) wedi arddangos dogfennau rhagorol ac mae'n amlwg bod gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn flaenoriaeth i'r cartref. Mae wedi'i ymgorffori mewn arferion a dogfennaeth ac mae'n ymddangos ei fod wrth wraidd popeth a wnânt.

Mae **Plas yr Ywen** (Aur) wedi gwreiddio Progress for Providers yn llawn yn eu gwasanaethau, er enghraifft, cafodd tenant strôc yn 2016 a'u gadawodd ag anawsterau gwybyddol gan gynnwys problemau cyfathrebu sylweddol a thrafferth gyda chanfod geiriau. Mae'r tenant yn hoffi gwneud jig-sos ond roedd yn mynd yn rhwystredig oherwydd ni allent gofio pa aelod o staff oedd wedi eu cefnogi. O gwblhau'r cofnod dysgu a myfyrio ar yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn nad oedd yn gweithio'n dda, awgrymodd aelod o'r tîm roi'r proffiliau bach gydag enwau staff a ffotograffau yn fflat y tenant i helpu i'w hatgoffa. Mae hefyd yn bwysig bod y tenant yn cael steilio ei gwallt ar ôl cawod, sy'n golygu ei bod yn bwysig bod y person sy'n cefnogi gyda'r gawod yn gallu steilio gwallt ac yn hyderus i wneud hynny. Mae'r wybodaeth bwysig hon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei chasglu ar yr offeryn cymorth paru.

Nid yn unig y mae'r rhaglen Progress for Providers yn cael effaith ar ofal a llesiant preswylwyr **Marleyfield House** (Aur), ond gall aelodau staff hefyd elwa o ddefnyddio'r offer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er enghraifft, mae Tŷ Marleyfield yn cefnogi lefel amrywiol o anghenion gofal sy'n amrywio o ofal preswyl, ailalluogi, gofal tymor byr a phreswylwyr sy'n byw gyda dementia. Gan ddefnyddio'r offeryn 4 plws 1 Cwestiwn, roedd y rheolwyr yn gallu canfod, ar gyfer preswylwyr sy'n byw gyda dementia, neu salwch cysylltiedig â dementia, ei bod yn hanfodol i staff gael eu cefnogi gyda mwy o wybodaeth yn y camau cynnar, i atal camddehongli effeithiau dementia, a gweld y person nid y salwch. I gefnogi aelodau staff, cyflwynwyd Ffeil Hyfforddiant Dementia gyda chanllawiau hawdd eu dilyn a ddarparwyd gan Gymdeithas Alzheimer, i gynorthwyo gyda chefnogi preswylwyr a theuluoedd ar y prif fathau o ddementia, ynghyd â gofal diwedd oes. Mae cyfarfodydd tîm, trafodaethau grŵp ac arferion myfyriol yn parhau i gael eu cynnal i roi'r canllawiau ar waith.

I weld y rhestr lawn o ddarparwyr sy'n ennill y gwobrau hyn cliciwch yma.

## Gwasanaethau Eiriolaeth

Mae ein gwasanaethau eiriolaeth wedi cael eu hail-dendro o fis Ionawr 2024. Rydym wedi ymuno â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o'r broses dendro hon i greu cynnig eiriolaeth newydd ar gyfer Gogledd-ddwyrain Cymru. Yn flaenorol roedd dau ddarparwr yn Sir y Fflint, a dewis arall yn Wrecsam, a'r adborth oedd y gallai cael mynediad at eiriolaeth fod yn ddryslyd ar adegau. Nawr gall pobl sy'n chwilio am gefnogaeth eiriolaeth ffonio un darparwr ar gyfer yr holl wasanaethau, Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru (ASNEW). Mae'r gwasanaeth isranbarthol newydd yn dal yn ei ddyddiau cynnar ond mae eisoes wedi cefnogi 163 o achosion eiriolaeth yn ei chwarter cyntaf.

Rydym hefyd wedi ail-dendro ein prosiect Hunan Eiriolaeth ac mae Advance Brighter Futures bellach yn darparu hyn yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i gael golwg newydd ar sut mae gwasanaethau'n grymuso pobl i eirioli drostynt eu hunain ac atal yr angen i geisio cymorth eiriolaeth statudol yn y dyfodol. Mae Advance Brighter Futures wedi mynd ati i ail-werthuso'r ddarpariaeth bresennol yn Sir y Fflint a chydlunio ac ail-lansio gwasanaeth newydd sbon ym mis Ebrill 2024.

## Gwasanaethau Anabledd a Nam ar y Synhwyrau

Yn dilyn ymarfer tendro llwyddiannus, mae Sir y Fflint, mewn partneriaeth â Chyngor Wrecsam, wedi ail-dendro'r gwasanaethau cymorth synhwyraidd gyda Vision Support a DSN. Bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu ar ôl troed isranbarthol i gynnig arbedion effeithlonrwydd a gwell rheolaeth ar gapasiti yn yr ardal. Mae'r contractau newydd i fod i ddechrau ar 1 Mai 2024, ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â Wrecsam a phartneriaid i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

## Gwasanaethau Awtistiaeth

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru (NWIAS) wedi bod yn weithgar iawn eleni, yn hyrwyddo'r gwasanaeth ac yn sicrhau bod unigolion ag awtistiaeth yng Ngogledd Cymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Bellach mae gan NWIAS raglen reolaidd o ganolfannau cyngor ym mhob un o chwe sir Gogledd Cymru. Cynhelir y rhain yn fisol mewn lleoliadau cyhoeddus sy'n hwyluso mynediad at wybodaeth a chymorth. Mae'r tîm hefyd yn cynnal cymorth ôl-asesiad o ran grwpiau cymorth chwe wythnos er mwyn galluogi unigolion niwrowahanol i ennill sgiliau ymdopi.




Mae diwrnodau hyrwyddo wedi'u cynnal yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Ewlo, Sir y Fflint, Gwesty'r Imperial, Llandudno a Gwesty Oriel House, Llanelwy, sydd wedi llwyddo i ddenu mwy na 350 o bobl. Cafodd 71 o sefydliadau eu harddangos yn y digwyddiadau hyn a oedd yn gallu cynnig cymorth i fynychwyr, yn unigolion ac yn deuluoedd. Roedd cyfleoedd hefyd i rwydweithio rhwng sefydliadau ac mae pob digwyddiad wedi cael derbyniad da. Mae mwy o ddigwyddiadau ar y gweill ar gyfer 2024/2025 yn Ynys Môn a Wrecsam. Roedd gan NWIAS hefyd stondin yn sioe Fflint a Dinbych a ddenodd dros 80 o ymholiadau personol, gan ein galluogi i gyrraedd hyd yn oed mwy o unigolion.

Mae hyfforddiant wedi'i gynnal gydag ASNEW ar Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Sgiliau Cyfathrebu, ac mae NWIAS yn hyrwyddo dysgu ar-lein Awtistiaeth Cymru ar y pwnc hwn yn weithredol, sydd wedi arwain at fwy o gyhoeddusrwydd a mynediad i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Cynigir hyfforddiant hefyd i ddarparwyr eiriolaeth ac mae contractau bellach yn manylu ar ddisgwyliadau ynghylch sgiliau a gwybodaeth wrth gefnogi pobl awtistig.

Mae NWIAS wedi llwyddo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy eu rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth i ariannu asesiadau ychwanegol o anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASD) i leihau'r rhestr aros, sef 21 mis.

Mae NWIAS wedi cynnal ymchwil ar y cyd â Phrifysgol Bangor mewn perthynas â boddhad cwsmeriaid, ac ynghyd â staff arbenigol yng Nghyngor Sir y Fflint, wedi datblygu offeryn boddhad arolwg ar-lein. Defnyddir yr offeryn hwn i fonitro perfformiad y gwasanaeth a chaiff ei adolygu bob chwarter i wella perfformiad. Mae'r tîm hefyd yn sicrhau eu bod yn cael adborth rheolaidd ar waith grŵp a wneir, er mwyn gallu parhau i gyd-gynhyrchu'r cyrsiau i sicrhau cynhwysiant gyda'r gymuned awtistig.

Mae NWIAS hefyd wedi datblygu model ymgynghori newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gofyn am fewnbwn gan y gwasanaeth, i ddatblygu arfer awtistiaeth proffesiynol ac i gynorthwyo gyda rheoli achosion oedolion awtistig. Mae hyn wedi cael croeso ac mae'r tîm wedi gallu cefnogi'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC), y Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta a Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i ddatblygu arfer mewn perthynas ag asesiadau awtistiaeth. Mae'r clinigwyr hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth i roi cyngor mewn perthynas â gwaith achos cymhleth.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Yn ystod 2023/24, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ymhellach ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gyda'u llesiant meddwl mewn ymdrech i osgoi'r angen am wasanaethau statudol. Yn ogystal â chomisiynu cymorth gan CGLISFf ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol o fewn y TIMC, mae gan y Tîm Llesiant ac Adfer bellach dri Gweithiwr Cymdeithasol sy'n darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Gweithiwr Lles Plant a Theuluoedd - mae'r rôl hon yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad i bobl sy'n cael trafferth gyda'u lles meddyliol ac sydd â dibynyddion sy'n blant. Gellir cyfeirio rhieni at adnoddau iechyd meddwl yn ardal Sir y Fflint.

- Gweithiwr Lles Oedolion - mae'r rôl hon yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad i bobl sy'n cael trafferth gyda'u lles meddyliol ac a allai fod yn cael trafferth dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt. Maen nhw wedi'u lleoli yn Hwb Llyfrgell y Fflint ar ddydd Gwener rhwng 12pm a 2pm. Mae'r gweithiwr hwn hefyd yn gweithio ar y cyd â MIND Gogledd-ddwyrain Cymru i hwyluso grŵp cymorth a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer y rhai sy'n profi problemau sy'n gysylltiedig ag anhwylder personoliaeth. Cafodd hyn ei gynnwys fel enghraifft o arfer da mewn rhaglen ddogfen ddiweddar gan ITV Cymru.

- Gweithiwr Cefnogi Llety Llesiant - mae'r rôl hon yn darparu cefnogaeth i bobl sy'n cael trafferth gyda'u lles meddyliol ac a allai fod mewn perygl o golli eu cartrefi o ganlyniad.

Ym mis Medi 2023 lansiodd y Tîm Llesiant ac Adfer ei elfen Cymorth Llety, sy'n cynnwys un Gweithiwr Cymdeithasol a dau Weithiwr Cymorth. Datblygwyd y tîm newydd hwn gan ddefnyddio cyllid Grant Cymorth Tai i ymateb i'r problemau tai a brofir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl lefel is a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Mae anawsterau'n cynnwys problemau ariannol sy'n arwain at beidio â thalu rhent,

tor-perthynas sy’n arwain at ddigartrefedd, ymddygiad celcio, ac amrywiaeth o anghenion tai eraill. Teimlai staff yn yr adrannau tai nad oedd ganddynt wybodaeth ac arbenigedd mewn gweithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a’u bod yn ei chael yn anodd mynd i’r afael â phroblemau tai lle mai’r rhain oedd yr achosion sylfaenol. Mae’r Tîm Cefnogi Llety Llesiant wedi’i sefydlu gan ddefnyddio prosesau y cytunwyd arnynt gyda thimau tai, a gall unrhyw unigolyn neu weithiwr proffesiynol atgyfeirio drwy wefan Porth Tai Sir y Fflint.

Mae’r adborth o’r prosiect wedi bod yn gadarnhaol, mae’r cyfathrebu rhwng y Tîm Llesiant ac Adfer a’r Tîm Atebion Tai wedi bod yn dda ac maent wedi ymwreiddio’n dda.

Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi treblu o 12 uned o gymorth i 47, sydd wedi arwain at unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl na fyddent wedi gallu cael mynediad atynt yn flaenorol. Mae ychwanegu’r tîm Llesiant ac Adferiad wedi golygu bod unigolion wedi elwa o fewnbwn Gweithiwr Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau perthnasol ac yn cael mynediad iddynt. Mae unigolion bellach yn derbyn cyngor a chymorth proffesiynol gan dîm arbenigol.

Mae Swyddogion Atebion Tai wedi adrodd yn ôl bod unigolion yn ymgysylltu’n dda â’r Gweithwyr Llesiant ac Adfer. Mae’r rhestr aros am gymorth gan wasanaethau iechyd meddwl o fewn HSG wedi lleihau, ac ar hyn o bryd mae gan y Tîm Llesiant ac Adfer 35 o achosion rhyngddynt.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd ar gael [cliciwch yma.]

# Blaenoriaethau 2024/2025

- ✓ **Darparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer gofal camu i lawr o fewn ein darpariaeth fewnol (Tŷ Croes Atti).**
- ✓ **Cefnogi adeiladu canolbwynt newydd ar gyfer adleoli prosiect cyflogaeth â chymorth Tri Ffordd i Faes Gwern yn yr Wyddgrug.**
- ✓ **Parhau i dyfu’r farchnad Meicro-Ofal gan gynnwys mynediad at becynnau gofal a gomisiynir.**
- ✓ **Treialu rhaglen rhianta gwirfoddol sy’n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnig cyfle i rieni gael cymorth cymheiriaid a phrofi a yw gwasanaethau gwirfoddol mor effeithiol â gwasanaethau cyflogedig.**
- ✓ **Ymchwilio i sut i adnabod a chysylltu â mwy o ofalwyr, gwneud ein gwasanaethau yn fwy gweladwy a hygyrch a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr yn y gymuned leol.**
- ✓ **Ailgomisiynu gwasanaethau gofalwyr i ddechrau ym mis Ebrill 2025.**

# Lles

- **Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.**
- **Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gymaint â phosibl.**

## Maethu


### Stori Llwyddiant Ymgyrch yr Arth Faeth

Lansiwyd Ymgyrch yr Arth Faeth ym mis Ionawr 2023 mewn cydweithrediad ag Ysgolion Cynradd ar draws Sir y Fflint i godi ymwybyddiaeth o faethu yn yr awdurdod lleol ac amlinellu'r angen brys i recriwtio mwy o ofalwyr maeth yn y sir.

Hyd yma, mae tair ar ddeg o ysgolion cynradd yn y sir wedi croesawu'r Arth Faeth i'w hystafelloedd dosbarth, ac mae'r plant yn cael pecyn gweithgareddau sy'n cynnwys tedi-bêr o'r Arth Faeth a llyfr gweithgareddau i fynd adref gyda nhw. Mae'r ymgyrch yn addysgu plant a'u teuluoedd am faethu gyda'r awdurdod lleol a'r manteision o blant sy'n derbyn gofal yn aros yn lleol.

*"Rydym wedi meddwl am faethu erioed, yna daeth yr Arth Faeth adref o ysgol ein merch. Cymerodd ein merch ofal mawr o'r Arth Faeth ac roedd hi'n dod i bobman gyda ni. Roedd yn neges wych i'w hanfon."*

*Craig a Clare oedd y gofalwyr maeth newydd cyntaf i gofrestru ar ôl i'w merch ddod â'r arth faeth adref.*






**Penblwydd Cyntaf yr Arth Faeth**

Cynhaliodd [Maethu Cymru Sir y Fflint](#) barti pen-blwydd arbennig iawn ym mis Chwefror 2024, i ddathlu blwyddyn ers lansio eu hymgyrch arloesol Arth Faeth. Gwahoddwyd plant a gofalwyr maeth lleol i'r parti ac roedd cyfle i chwarae gemau a chreu crefftau i ddathlu pen-blwydd yr Arth Faeth yn un oed.

*"Mae'r Arth Faeth yn ffordd wych o rannu'r neges yn Sir y Fflint fod maethu yn rôl mor bwysig a gwerth chweil, y gall pobl gyffredin yn ein cymunedau ei gwneud a chael effaith fawr mor gadarnhaol ar fywydau pobl ifanc."*

*Neil Ayling*
*Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint*






**Codi Ymwybyddiaeth**

I gefnogi ymgyrch genedlaethol Maethu Cymru 'Dewch â Rhywbeth i'r Bwrdd', bu Tîm Maethu Cymru Sir y Fflint ym Mharc Siopa Brychdyn ar nifer o ddyddiadau trwy gydol Ionawr a Chwefror i godi ymwybyddiaeth, addysgu pobl am faethu gyda Sir y Fflint, ac ateb unrhyw gwestiynau.

**Mockingbird**

Mae rhaglen Mockingbird yn atgynhyrchu teulu estynedig mewn cytserau o 6-10 o aelwydydd maethu, dan arweiniad Gofalwr Cartref Hwb a Gweithiwr Cyswllt. Mae cymuned y cytser yn cynnig cymorth ac arweiniad hanfodol gan gymheiriaid ochr yn ochr â gweithgareddau cymdeithasol a chysgu drosodd, i gryfhau perthnasoedd a pharhad i blant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd mae tair cytser yn Sir y Fflint, ac mae pob un ohonynt yn mynd yn dda gyda chyfeillgarwch a pherthynas hyfryd.

Eleni rydym wedi gweld nifer o achosion o ofalwyr maeth yn cynyddu eu gallu, naill ai o ofal seibiant i amser llawn, neu o un lleoliad i ddau leoliad, oherwydd yr hyder y maent wedi'i ennill o raglen Mockingbird. Canlyniad cadarnhaol arall yr ydym wedi'i brofi eleni yw achos lle mae plentyn a fyddai wedi cael ei leoli mewn lleoliad preswyl y tu allan i'r sir, wedi gallu aros mewn gofal maeth yn Sir y Fflint ochr yn ochr â'i frodyr a chwiorydd.

## Cartrefi Preswyl i Blant

Mae ymrwymiad Sir y Fflint i ddatblygu rhaglen o gartrefi plant i helpu i osgoi'r angen am leoliadau preswyl y tu allan i'r sir yn parhau. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi llwyddo i gofrestru 4 o'n 5 Cartref Preswyl Plant newydd gydag AGC. Mae'r tîm yn Nhŷ Nyth wedi agor model o Therapi Aml-Systemig, Triniaeth Integredig i Deuluoedd, Model Triniaeth Integredig (MST FIT ITM), sef model sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei ddefnyddio'n eang ledled America a dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'r tîm yn cael cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda'r ymgynghorwyr o MST, mae ganddynt ddogfennaeth glir ar waith i gefnogi ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac mae'r Unigolyn

Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i gwblhau ymweliadau monitro, yn unol â gofynion y rheoliadau.

Ym mis Rhagfyr 2023, dathlodd y tîm y person ifanc cyntaf yn symud yn ôl i fyw gyda'i deulu yn llawn amser. Roedd y person ifanc wedi bod mewn gofal ers 9 mlynedd, mae bellach wedi gorffen y rhaglen lawn, ei achos wedi cau i'r tîm MST FIT, ac yn parhau i fyw ynghyd â'i deulu. Yn dilyn ymlaen o'r llwyddiant hwn, mae person ifanc arall wedi symud i gartref ei deulu ers hynny ac mae person ifanc arall yn y rhaglen ar hyn o bryd.

Mae aelodau'r tîm o fewn y gwasanaeth wedi cefnogi Gwasanaethau Plant gyda sefyllfaoedd brys, ac wedi cefnogi pobl ifanc yn eu cartrefi teuluol, o fewn darpariaeth frys Sir y Fflint, yn ogystal ag mewn eiddo eraill yn y gymuned leol.

Mae'r timau wedi bod yn sefydlu dulliau therapiwtig sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn yr holl gartrefi, a threfnir hyfforddiant pellach eleni a fydd yn cefnogi datblygiad hyn. Mae yna seicolegydd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth sydd wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r gweithlu i ddatblygu eu sgiliau, gwella ymarfer, a deall y bobl ifanc a sut y gallwn eu cefnogi orau.

## Llety Hirdymor i Bobl Ifanc ag Anableddau Dysgu

Mae Sir y Fflint yn parhau â'i waith i fodloni gofynion llety ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae cynnydd yn parhau a gwnaed cysylltiadau da gyda'r Cymdeithasau Tai.




*Ar draws y cartrefi bu llawer o ddiwrnodau hwyl yn dathlu gwahanol ddigwyddiadau, mae holl aelodau'r tîm yn ymuno â'r plant a'r bobl ifanc i sicrhau eu bod yn creu atgofion a phrofiadau i'r holl unigolion y maent yn eu cefnogi.*

ADRAN 4
LLES

## Llety Argyfwng Tymor Byr

Bellach mae gan Sir y Fflint bedwar eiddo ar gael i gefnogi pobl sy'n cael eu hunain yn ddigartref, neu sydd angen llety ar frys. Yr ychwanegiad diweddaraf yw fflat un ystafell a ddefnyddiwyd i letya person ifanc ag awtistiaeth a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r Gwasanaeth Dilyniant wedi cefnogi'r person ifanc hwn i ymgysylltu â'r gymuned yn lleol ac ymweld â sefydliad byw â chymorth arall i feithrin cyfeillgarwch naturiol. O ganlyniad, mae'r person ifanc yn teimlo y gall fyw'n annibynnol ar becyn cymorth ffurfiol ac mae'n cael ei gefnogi i ddod o hyd i lety hirdymor yn yr ardal gan ei fod yn dymuno parhau i adeiladu ar y rhwydweithiau a'r cyfeillgarwch y mae wedi'i wneud.

## Llys Jasmine yn 10 oed (Gofal Ychwanegol)

Dathlodd tenantiaid a staff Llys Jasmine 10 mlynedd ers sefydlu'r cynllun ym mis Hydref 2023. Llys Jasmine oedd yr ail gynllun gofal ychwanegol a agorwyd gan Gyngor Sir y Fflint. Hyd yma mae Sir y Fflint wedi datblygu 4 cynllun gofal ychwanegol ar draws y sir, gan gynnig gwell tai a gwasanaethau cymorth i alluogi unigolion i aros yn y gymuned am gyfnod hwy. Ar draws y 4 cynllun, mae 239 o fflatiau, gan gynnwys 30 wedi'u haddasu'n arbennig ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.



*Plas yr Ywen yn dathlu coroni'r Brenin*



*Dathliadau pen-blwydd Llys Jasmine yn 10 oed*



*Tenantiaid o Lys Eleanor yn mwynhau un o'u teithiau rheolaidd*



## Agoriad Swyddogol Plas Yr Ywen (Gofal Ychwanegol)

Cynhaliwyd agoriad swyddogol Plas yr Ywen ym mis Medi 2023. Roedd yn anrhydedd i ni gael y Prif Weinidog, Mark Drakeford, i agor y cynllun a daeth nifer dda o drigolion, staff, Cynghorwyr, a'r Maer lleol i'r digwyddiad.

## Gwasanaethau Gofal Cartref

Mae Sir y Fflint yn parhau i ddefnyddio cynllun recriwtio parhaus i dyfu ein gwasanaeth gofal cartref mewnol i gefnogi mwy o bobl i fyw'n dda gartref, fodd bynnag, mae recriwtio ar draws gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn her. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae gan y gwasanaeth gofal cartref dîm tasg dynodedig sy'n edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddenu ymgeiswyr i'r gwasanaeth, a chynhaliwyd digwyddiad recriwtio ym mis Mawrth 2024. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn cefnogi'r gwasanaeth i dyfu ac ehangu'r cynnig i bobl sy'n byw yn ein cymunedau.

Mae fflyd y timau o geir trydanol wedi dyblu eleni. Bellach mae ganddyn nhw chwe Renault Zoe, sy'n galluogi'r gwasanaeth i ddarparu gofal cartref ar draws y sir mewn ffordd gynaliadwy a helpu i gefnogi Strategaeth Newid Hinsawdd Sir y Fflint.









## Rhaglen Dysgu er Lles Sir y Fflint

Mae Rhaglen Dysgu er Lles Sir y Fflint yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir y Fflint a nifer o bartneriaid, sy'n darparu cyrsiau am ddim i unrhyw un dros 18 oed sy'n byw yn Sir y Fflint sy'n cael trafferth gyda'u lles meddyliol a/neu eu gofalwyr.

Mae llyfryn y rhaglen yn manylu ar yr holl weithgareddau a chyrsiau sydd ar gael ac mae ar gael ar-lein neu fel copi papur. Mae taflenni bellach yn cael eu dosbarthu i 50 o leoliadau, cynnydd o 24 lleoliad yn 2022/23, ac mae'n cynnwys cod QR sy'n cysylltu'n uniongyrchol â gwefan Dysgu er Lles Sir y Fflint. Mae ychwanegu'r cod QR hefyd wedi arwain at fwy o ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol.

Cwblheir holiaduron adborth ar ôl pob sesiwn i asesu ansawdd ac effaith y cyrsiau. Mae trafodaethau ac ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol hefyd yn helpu i lywio pa gyrsiau y gallai fod angen eu hychwanegu at y llyfryn. Mae sesiynau newydd fel graffiti a gweithgareddau awyr agored gan gynnwys padlfyrddio a saethyddiaeth, wedi bod yn llwyddiannus wrth ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc a bwriedir cynnwys mwy o'r gweithgareddau hyn yn y llyfryn wrth symud ymlaen.

*“Roedd mynychu SAFE yn drobwynt i mi. Fe helpodd fi i fod lle rydw i nawr, mynd i swydd amser llawn a helpu eraill.”*

*“Wrth fy modd. Wedi’i egluro’n wych a chyfoeth o wybodaeth. Gweithgaredd mor rymusol. Diolch yn fawr iawn.”*

*“Diolch am sesiwn addysgiadol hyfryd gyda llawer o syniadau da mewn awyrgylch croesawgar caredig.”*



**Rhaglen Dysgu er Lles Sir y Fflint - Digwyddiad 10fed Pen-blwydd**

Ym mis Hydref 2023 dathlodd y rhaglen ei 10fed pen-blwydd gyda digwyddiad rhwydweithio a rhannu gwybodaeth yn Llyfrgell y Fflint.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda 10 partner yn bresennol, gan gynnwys KIM Inspire, MIND Gogledd-ddwyrain Cymru, Aura, Advance Brighter Futures, Tîm Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol, SAFE a CGLISFf. Darparodd y gwirfoddolwyr Llesiant sesiynau rhagflas o rai o’r cyrsiau a oedd ar gael, gan gynnwys blodeuwriaeth, crefft siwgr a Dungeons and Dragons, ac roedd y cyrsiau Ffotograffiaeth a Dyfrlliw yn arddangos peth o’r gwaith anhygoel y maent wedi’i gynhyrchu. Roedd y Gweithwyr Cymdeithasol Llesiant ac Adfer hefyd wrth law i gynnig cyngor ac arweiniad. Daeth dros 60 o bobl i’r digwyddiad, ac nid oedd llawer ohonynt wedi clywed am y gwasanaeth hwn o’r blaen.

Oherwydd adborth a dderbyniwyd o'r digwyddiad, bwriedir cynnal digwyddiad blynyddol bob mis Hydref, i arddangos y llyfryn a'r cyrsiau a'r gweithgareddau sydd ar gael.

## Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) yn ymyriad iechyd ar sail tystiolaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn ymgorffori gweithgaredd corfforol a newid ymddygiad, i gefnogi unigolion i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachach i wella eu hiechyd a'u lles.

Mae Timau Therapi Galwedigaethol ac Un Pwynt Mynediad (SPOA) Sir y Fflint yn parhau i atgyfeirio unigolion i'r cynllun fel y bo'n briodol.

Mae NERS yn parhau i gael ei hyrwyddo ymhlith ymarferwyr perthnasol o fewn y gwasanaeth er mwyn cynnal ymwybyddiaeth a sicrhau bod buddion y cynllun yn parhau i gael eu cyrchu gan unigolion cymwys.

## Cyfeirio Unigolion at y Trydydd Sector a Phresgripsiynu Cymdeithasol

Mae trefniadau ffurfiol gyda CGLISFf wedi cynyddu capasiti presgripsiynu cymdeithasol, a chynhelir cymhorthfa reolaidd hefyd yng Nglannau Dyfrdwy yn cynnig cyngor a gwybodaeth.

# Blaenoriaethau 2024/2025

- ✓ **Gweithredu'r model ymarfer 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' a'i wreiddio i ymarfer o fewn y Gwasanaethau Plant, dros raglen 3 blynedd.**
- ✓ **Lansio a dechrau gweithredu offeryn proffil gradd esgeulustod yr NSPCC (GCP2), i gefnogi'r gwaith o nodi a rheoli risgiau sy'n ymwneud ag esgeulustod yn briodol.**
- ✓ **Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth cartref gofal mewnol i gefnogi rhagor o bobl i fyw yn eu cartrefi, gan ddefnyddio rhaglen recriwtio dreigl.**
- ✓ **Parhau i edrych ar adnoddau newydd i gefnogi gofalwyr gyda'r pwysau oherwydd y cynnydd mewn costau byw.**
- ✓ **Archwilio cyfleoedd i gefnogi gofalwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.**
- ✓ **Cefnogi pobl i gyflawni eu deilliannau lles meddyliol drwy hyrwyddo lles personol a chymunedol drwy gyrsiau mynediad agored sy'n cael eu darparu gan y Bartneriaeth Ddysgu.**

# Gwybodaeth Arall

## Arolygon ac adolygiadau

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

### Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Oedolion a Phlant

Rhwng 27 Tachwedd ac 8 Rhagfyr 2023, ymwelodd AGC â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i gynnal Arolygiad Gwerthuso Perfformiad llawn, arferol o'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Diben yr arolygiad oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol o ran arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth.

Nododd yr arolygwyr waith ac arfer da ar draws yr holl wasanaethau a diolchwyd i bawb a gymerodd ran am groeso mor gynnes.

Crynhodd yr arolygwyr eu canfyddiadau fel a ganlyn:

- Mae Uwch Dîm Rheoli sefydlog a phrofiadol yn ei le ar draws y ddau wasanaeth sy'n darparu dilyniant o ran arweinyddiaeth.
- Dywedodd asiantaethau partner, darparwyr a budd-ddeiliaid wrthym fod arweinwyr yn weladwy a bod perthnasoedd da ar lefel uwch gyda chyfathrebu agored.
- Dywedodd ymarferwyr hefyd fod arweinwyr yn hygyrch, yn hawdd mynd atynt, ac yn gefnogol, ac ar y cyfan, yn sicrhau bod gan ymarferwyr yr hyfforddiant a'r sgiliau cywir. Nododd rhai ymarferwyr (16%) o'r Gwasanaethau Plant a ymatebodd i'r arolwg staff fod angen gwella'r arweinyddiaeth a'r diwylliant o fewn yr awdurdod lleol, er bod (86%) yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr. Yn yr un modd, dywedodd ymarferwyr (91%) o'r Gwasanaethau Oedolion a ymatebodd i'r arolwg staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr.
- Mae gweithdrefnau yn eu lle i sefydlu aelodau newydd o staff, er y byddent ar adegau yn elwa o fwy o gefnogaeth fugeiliol. Cydnabyddir bod grŵp gwaith cymdeithasol wyneb yn wyneb newydd wedi'i sefydlu i gynnig cymorth cymheiriaid i'r holl Weithwyr Cymdeithasol ar draws gwasanaethau Plant ac Oedolion.
- Mae'r ymarferwyr yn amlwg yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda iawn. Mewn ymateb i arolwg gan AGC, dywedodd llawer o bobl eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod ymarferwyr yn gwrando arnynt.

- Mae recriwtio a chadw ymarferwyr gofal cymdeithasol yn her genedlaethol ledled Cymru. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio'n galed ar strategaethau i gefnogi recriwtio a chadw staff yn barhaus. Mae enghreifftiau'n cynnwys comisiynu asiantaeth gyfathrebu i hyrwyddo gweithio i'r awdurdod lleol a chynyddu gallu yn Nhîm Datblygu'r Gweithlu.

- Mae'r ailstrwythuro diweddar ar draws y ddau wasanaeth yn cael ei gydnabod ac mae ganddo'r potensial i ddarparu mwy o wydnwch, cyfleoedd ar gyfer mwy o gefnogaeth a goruchwyliaeth, yn ogystal â dilyniant gyrfa. Teimlai rhai ymarferwyr ar draws y ddau wasanaeth nad oedd yr ymgynghoriad ar newidiadau yn y strwythur wedi ystyried barn ymarferwyr yn ddigonol ac wedi effeithio ar eu morâl gan nad oedd o fudd i bawb.

- Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o sefydlogrwydd y farchnad yn ei ardal ac anghenion ei boblogaeth. Ceir enghreifftiau o'r awdurdod lleol yn rhoi cynlluniau strategol llwyddiannus ar waith mewn ymateb i angen a nodwyd a diffyg gwasanaethau cymorth penodol yn ei ardal. Mae hyn wedi cael ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth â BIPBC a phartneriaid perthnasol eraill i ddatblygu gwasanaethau arloesol gyda buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cartref Gofal Marleyfield a Chartref Gofal Plant Tŷ Nyth.

- Mae gan yr awdurdod lleol bolisi goruchwylio cynhwysfawr. Mae ymarferwyr yn elwa ar oruchwyliaeth reolaidd, er bod yr arfer a safon y cofnodi yn anghyson. Mae'r cofnodion goruchwylio gorau yn canolbwyntio ar ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol. Mewn enghreifftiau eraill, mae angen mwy o fyfyrio ar arfer, a ffocws gwell ar chwilfrydedd proffesiynol, canlyniadau a lles staff.

- Mae'r awdurdod lleol yn elwa ar gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol dda. Mae ffocws ar sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni. Mae uwch arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion yn cydnabod bod angen gweithredu ac adnoddau sylweddol i sicrhau gallu'r awdurdod lleol i gyflawni cyfrifoldebau diogelu statudol. O ganlyniad, comisiynodd yr awdurdod lleol ddau dîm asiantaeth gofal a reolir yn y Gwasanaethau Plant i ddarparu capasiti ychwanegol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i blant a theuluoedd.

Mae adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC.]

## Arolygiad Gwasanaeth Maethu Sir y Fflint

Yn ogystal â'r arolygiad o'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant, cynhaliwyd arolygiad ar wahân gan AGC o Wasanaethau Maethu Sir y Fflint rhwng 27 Tachwedd a 01 Rhagfyr 2023.

Roedd yr arolygiad yn bwriadu:

- Canolbwyntio ar y graddau y mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau gofynnol a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019, a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018.

- Ystyried y canlyniadau ar gyfer plant sy'n defnyddio Gwasanaeth Maeth Sir y Fflint.

Crynhodd yr arolygwyr eu canfyddiadau fel a ganlyn:

*"Mae gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol yn cael ei ddarparu â gofal, cymhwysedd, a sgiliau digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. Mae'r gwasanaeth maethu yn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac yn darparu cymorth parhaus i ofalwyr maeth. Mae'r gwasanaeth maethu yn darparu asesiad o ofalwyr maeth cyffredinol a gofalwyr maeth cysylltiedig. Mae rheolwr dynodedig ac uwch reolwr sydd hefyd yn Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth maethu.*

*Mae gan y gwasanaeth maethu dîm o staff sy'n gymwys, yn ymroddedig ac sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i fodloni gofynion y gwasanaeth. Mae lefelau cadw staff yn dda, ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae'r awdurdod lleol yn targedu recriwtio gofalwyr maeth yn briodol ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gofalwyr maeth.*

*Mae'r plant yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth maethu i hybu a gwella canlyniadau lles. Mae anghenion iechyd ac addysgol plant yn cael eu blaenoriaethu, mae ganddynt fynediad at ystod eang o adnoddau. Mae gan ofalwyr maeth fynediad i fenter Mockingbird i gael cymorth, cyngor ac arweiniad. Mae asiantaethau allanol yn darparu cyngor a chefnogaeth i blant a gofalwyr maeth i ddatblygu perthnasoedd ac ymlyniadau."*

Mae adroddiad llawn ar gael ar [wefan AGC](wefan AGC).

## Arolygiad Cartref Preswyl Llys Gwenffrwd

Cartref gofal preswyl 30 gwely yn Nhreffynnon yw Llys Gwenffrwd. Derbyniodd y cartref arolygiad gan AGC ar 31 Awst 2023. Rhoddodd yr arolygydd adborth cadarnhaol am ansawdd bywyd y preswylwyr, yn ogystal â'r systemau a'r prosesau a weithredir gan y rheolwr a'r staff.





ADRAN 5
GWYBODAETH ARALL





Crynhodd yr arolygwyr eu canfyddiadau fel a ganlyn:

*"Mae pobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n gartrefol a chroesawgar. Mae digon o leoedd i eistedd ac ymlacio. Ceir awyrgylch tawel, hamddenol, a chaiff pobl eu cefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n eu hadnabod yn dda. Anogir pobl i gyfrannu eu barn at redeg y cartref, a chymerir eu barn o ddifrif. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael, ac mae'r rhain wedi'u personoli i ddewisiadau unigol pobl. Mae staff gofal yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli sy'n hawdd mynd atynt ac sy'n ymateb i'w hanghenion."*

Mae adroddiad llawn ar gael ar wefan AGC.

## Arolygiad Gofal Tymor Byr yr Hafod

Mae Hafod yn wasanaeth gofal tymor byr sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, sy'n cynnig gofal seibiant i bobl a'u gofalwyr. Cwblhaodd AGC arolygiad o'r gwasanaeth ar 15 Chwefror 2024 a cheir crynodeb o ganfyddiadau'r arolygydd isod:

Mae pobl yn teimlo'n hapus yn yr Hafod a mynegodd teuluoedd pa mor dda yw'r gwasanaeth. Mae un gŵr yn pacio ei fagiau bythefnos ymlaen llaw ac mae llawer o bobl yn cyfeirio ato fel mynd ar wyliau. Mae'r staff yn gyfforddus yn eu rôl a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol am y tîm staff. Gall pobl ddod ag eitemau o gartref ac mae teimlad cynnes, cartrefol i'r Hafod. Roedd tystiolaeth o lawer o weithgareddau ar gael. Mae cynlluniau personol, nodiadau dyddiol a chynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol i gyd yn ardderchog, ac o ganlyniad mae pobl yn teimlo'n ddiogel bod staff yn gallu bodloni anghenion yr unigolion sy'n aros yno. Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda, a chwblhawyd y siartiau asesu meddyginiaeth i safon uchel. Roedd lluniau hyfryd ar y waliau o'r gweithgareddau y mae pobl yn cymryd rhan ynddynt (er bod angen diweddariad arnynt).

Er nad yw Hafod yn cynnal ymarfer tân llawn, roedd yr arolygydd yn teimlo bod dealltwriaeth dda o ddiogelwch tân, clefyd y llengfilwyr a gofal asbestos. Roedd recriwtio wedi bod yn gadarnhaol, roedd y systemau a ganiatawyd ar gyfer recriwtio diogel ac roedd gwiriadau GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) i gyd ar waith. Roedd y matrics hyfforddi wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar ac roedd o safon uchel, ond roedd dwy dystysgrif ar goll o'r hyfforddiant a gwblhawyd. Teimlai'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwr a'u bod yn mwynhau'r rôl yn fawr. Roedd y gwerthusiadau hefyd yn gyfredol.

Mae adroddiad llawn ar gael ar wefan AGC.

# Cwynion a sylwadau

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, weithdrefn gwyno gadarn ar waith. Rydym yn croesawu cwynion ac eisiau sicrhau bod unigolion, gofalwyr a theuluoedd yn cael gwrandawiad, y gweithredir ar eu barn, a'u bod yn cael ymateb amserol ac agored. Rydym yn gweithio'n galed i ddatrys problemau cyn gynted ag y byddant yn codi, ac mae eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo'n frwd.

Mae cwynion ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion a Phlant, yn gymharol gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda chynnydd yn nifer y cwynion un flwyddyn a gostyngiad yn y nifer wedyn. O ran themâu a thueddiadau, gellir categoreiddio cwynion a dderbynnir yn fras fel a ganlyn:

- **Urddas** - Lle mae pryderon am ofal personol ac ymddangosiad unigolyn, a'r effeithiau posibl y gall unrhyw ddiffygion eu cael ar yr unigolyn hwnnw.

- **Cyfathrebu** - Y ffordd yr ydym yn sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn cymryd rhan, yn cael eu hysbysu ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.

- **Ansawdd Gofal** - Materion yn ymwneud â gofal unigolyn, boed yn ofal preswyl, cartref, seibiant neu ofal maeth.

- **Amseroldeb** - Ein penderfyniadau o ran cynnig a darparu gofal a chymorth, a'r amser a gymerir i ddod o hyd i becynnau gofal.

- **Anghytundebau** - Pan fydd unigolion a theuluoedd yn herio neu'n apelio yn erbyn ein penderfyniadau neu gyfranogiad, neu pan fyddant yn credu bod diffyg gweithredu ynghylch materion y maent yn eu codi.

- **Costau Ariannol** - Anghydfodau sy'n ymwneud â sut rydym wedi gwneud penderfyniadau i godi tâl am ofal a chymorth, a'r symiau a ddefnyddiwyd.

- **Proses** - Lle nad ydym wedi cadw at y broses, neu efallai bod gwybodaeth bwysig ar goll yn ein gwaith papur.

- **Staff** - Lle mae ein cyfranogiad neu ryngweithio wedi cael eu camddehongli neu eu camddeall, neu gwestiynau wedi'u codi am ein hymddygiad proffesiynol gyda phobl.

- **Cyswllt** - Materion yn ymwneud â threfniadau cyswllt plant a theuluoedd fel y gorchmynnir gan y Llys.

Caiff yr holl gwynion yn cael eu harchwilio a'u defnyddio i wella'r gwasanaethau fel rhan o'r broses 'gwersi a ddysgwyd'. O ran dysgu, rydym wedi:

- Diwygio'r taflenni gwybodaeth presennol yn ymwneud â thaliadau, ac atgoffa staff o bwysigrwydd cofnodi trafodaethau am daliadau a gânt gydag unigolion a theuluoedd.

- Prosiect ar y gweill lle bydd gan bob plentyn ag anghenion gofal a chymorth ei gofnod achos unigol ei hun, ac felly'n symud oddi wrth y dull 'plentyn arweiniol'.

ADRAN 5
GWYBODAETH ARALL

# Cyfeirio at Ffynonellau Eraill o Wybodaeth

## Moderneiddio ein systemau

Mae Sir y Fflint yn awyddus i wneud y mwyaf o gyfleoedd i ddatblygu a moderneiddio ein systemau electronig.

## System Gyllid Gofal Cymdeithasol

Mae'r system gyllid gofal cymdeithasol newydd, ControCC, bellach yn fyw ar gyfer Oedolion a Phlant. Mae taliadau i ddarparwyr gofal, codi ar gleientiaid a thaliadau i gleientiaid am wasanaethau gofal cymdeithasol, bellach yn cael eu prosesu drwy ControCC.

## Porth Darparwyr


Mae'r gwaith o gyflwyno 'Porth Darparwyr' i ddarparwyr allanol a gofalwyr maeth wedi'i gynllunio i ddechrau ganol mis Ebrill 2024. Ein nod yw cofrestru cymaint o ddarparwyr â phosibl i'w galluogi i weld taliadau, codi anfonebau, cyflwyno ffigurau gwirioneddol a rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau drwy'r porth. Nod y swyddogaeth hon yw gwella hygyrchedd i ddarparwyr, ond hefyd lleihau'r adnoddau sydd eu hangen o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i ymdrin â gwaith o'r fath.

## System Rota Gofal Cartref

Ar ôl proses dendro drylwyr, mae'r broses o gaffael system Rota Staff wedi'i chwblhau. Bydd y system newydd yn galluogi'r timau i fod yn fwy effeithlon gan ddefnyddio'r system rota electronig.

## System Rheoli Achosion

Mae dogfennau caffael i dendro ar gyfer System Rheoli Achosion newydd wedi'u paratoi a disgwylir i'r tendr gael ei gyhoeddi yn y misoedd nesaf.



ADRAN 6

DATA CYD-DESTUNOL A MESURYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL

# Data Cyd-destunol a Mesuryddion Perfformiad Cenedlaethol

**1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024**

## Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

**9,458**
Nifer y cysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan y gwasanaethau statudol yn ystod y flwyddyn.

**14%**
Canran yr asesiadau lle'r aethpwyd ymlaen i lunio cynllun gofal a chymorth er mwyn cyflawni'r canlyniadau.

**6,944**
Nifer y cysylltiadau newydd hynny y darparwyd cyngor neu gymorth iddynt. (Mae'r ffigur hwn yn cynnwys **973** o gysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol a arweiniodd at gyngor a chymorth gan ein gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol).

**6,779**
Asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn roeddem yn helpu **1,029** o bobl dros **65** oed i fyw yn eu cartrefi a **524** o bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

**69%**
Canran y bobl â phecyn cymorth yr adolygwyd eu pecyn gofal o fewn y cyfraddau amser.

**1,109**
Nifer yr adroddiadau diogelu oedolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

**90%**
Canran o'r rhain a ddatblygodd yn ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod.

**212**
Nifer y bobl a gwblhaodd becyn ail-alluogi yn ystod y flwyddyn.

**559**
Nifer y bobl a gomisiynodd eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol.

**1,913**
Nifer o oedolion sy'n ofalwyr eu hadnabod a'u hatgyfeirio at ein darparwyr gwasanaethau gofalwyr.

**312**
Nifer yr achosion sy'n aros am asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint.

## Gwasanaethau Plant

**13,451**
Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau statudol yn ystod y flwyddyn.

**1,074**
Nifer y teuluoedd a gafodd wybodaeth a chymorth drwy'r Ganolfan Cymorth Cynnar.

**170**
Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2024.

**9%**
Canran y plant a ychwanegwyd at y gofrestr a gafodd eu hailgofrestru o fewn 12 mis o'u datgofrestru.

**10,002**
Nifer y cysylltiadau hynny y darparwyd cyngor neu gymorth iddynt.

**1,368**
Nifer y teuluoedd a drosglwyddwyd i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor (IAA).

**89% & 97%**
Canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a chynadleddau adolygu a gynhaliwyd o fewn yr

**10.26 mis**
Cyfartaledd amser yr arhosodd plant ar y gofrestr.

**98**
Nifer y plant / pobl ifanc sydd wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn.

**23%**
Canran y rhai a aeth ymlaen i gael cynllun gofal a chymorth.

**23%**
Canran y rhai nad oedd ganddynt unrhyw anghenion cymwys.

**117**
Nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle'r oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy daliad uniongyrchol ar 31 Mawrth 2024.

**2,187**
Asesiadau newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

**54%**
Canran o'r rhai oedd ag anghenion y gellid eu diwallu drwy unrhyw fodd arall.

**236**
Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2024.


# Cael gafael ar fwy o wybodaeth a dogfennau pwysig

**Dolenni i Ddeddfwriaeth a Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol:**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

**Strategaethau Allweddol Cyngor Sir y Fflint:**

Cyngor Sir y Fflint - Cynllun y Cyngor
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint - Cynllun Llesiant
Strategaeth Ddigidol
Newid Hinsawdd



# Rhestr Termau

### Eiriolaeth
Eiriolaeth yw gweithredu er mwyn cynorthwyo pobl i ddweud yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, diogelu eu hawliau, cynrychioli eu buddion a chael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

### Cymdeithas Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu (AFKA) Cymru
Mae AFKA Cymru yn hyrwyddo arfer da ar draws ehangder cynllunio parhad ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASD)
ASD yw'r enw meddygol ar awtistiaeth.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Mae BIPBC yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
AGC yw'r rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gofal plant annibynnol yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau lles pobl Cymru.

### Plant sy'n Derbyn Gofal
Mae plentyn dan ofal awdurdod lleol os bydd llys wedi rhoi gorchymyn gofal i leoli plentyn mewn gofal, neu fod adran gwasanaethau plant y cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

### Taliadau Uniongyrchol
Mae taliadau uniongyrchol yn arian gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint sydd ar gael i bobl gymwys i'w galluogi i drefnu cymorth ac atebion sy'n helpu i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol a aseswyd a chanlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt.

### Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)
Mae D2RA yn cefnogi cleifion wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty i dderbyn cefnogaeth therapi ddwys er mwyn eu galluogi i hybu eu hannibyniaeth cyn dychwelyd adref.

### Gofal Ychwanegol
Tai wedi'u dylunio gan roi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaeth, sy'n darparu amrywiol lefelau o gymorth sydd ar gael ar y safle ac yn hybu byw'n annibynnol.

### Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)
Sefydliad ymbarél a chefnogaeth ar gyfer dros 1200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.

### Cynllun Gwarantu Cyfweliad
Mae Cynllun Gwarantu Cyfweliad Gofalwn Cymru yn rhoi cyfle i unigolion sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol, a Blas ar Ofal yn flaenorol, drefnu cyfweliadau'n uniongyrchol gyda chyflogwyr cofrestredig.

### HfT
Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw gyda mwy o annibyniaeth a dewis ar draws ardal Sir y Fflint. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi comisiynu HFT i ddarparu cyfleoedd dydd a gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn y sir.

### Y Gronfa Tai â Gofal (HCF)
Cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gael i ddarparu tai a llety i bobl ag anghenion gofal a chymorth.

### Grant Cymorth Tai (HSG)
Cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ei wario ar brosiectau sy'n ceisio atal digartrefedd a helpu pobl i fyw yn eu cartref eu hunain neu dai â chymorth.

### Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF)
Mae IRCF Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhaglen newydd a sefydlwyd i gefnogi'n uniongyrchol ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu (PfG) i ddatblygu 50 o hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac i gefnogi ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl.

### Menter Iaith Fflint a Wrecsam
Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir y Fflint a Wrecsam.

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)
GOGDdC neu NEWCIS yw un o'r darparwyr gwasanaethau gofalwyr mwyaf yng Nghymru.

### Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru (Prosiect Trawsnewid AD GC)
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu yn un o bedwar prosiect trawsnewid yng Ngogledd Cymru ac fe'i gelwir hefyd yn Brosiect Trawsnewid AD.

### Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)
Mae'r Gronfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhaglen 5 mlynedd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2027 i helpu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal.

### Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)
Sefydlwyd BPRh Gogledd Cymru fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i wella llesiant y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Mae'r BPRh yn dod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynu'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

### SAFE
Mae SAFE yn gwrs hunan-eiriolaeth sydd bellach wedi newid ei enw i 'Hear My Voice'. Cynhelir y cwrs gan Advance Brighter Futures ac mae'n helpu unigolion i feithrin eu hunanhyder a sgiliau eraill.

### Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)
Mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhoi cyfrifoldeb rhiant dros blentyn i rywun heblaw rhieni'r plentyn neu unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant.